Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

# Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig

Awst 2020

Yn ystod y pandemig, mae ein tebygolrwydd o farw, colli swydd neu fynd ar ei hôl hi ym maes addysg wedi cael ei benderfynu'n rhannol gan ein hoedran, hil, rhyw, anabledd, incwm a ble rydyn ni'n byw. Mae'r feirws a'r ymateb iddo yn ehangu'r anghydraddoldebau presennol, a hynny drwy leihau incwm a chynyddu risgiau yn anghymesur i rai grwpiau o bobl.

Rydym yn gwybod y canlynol:

- Mae tlodi wedi bod yn benderfynydd allweddol yn y pandemig, o gyfraddau marwolaeth i'r risg o golli gwaith neu incwm, ac o gyrhaeddiad addysgol i dai gorlawn. Mae pobl o rai grwpiau ethnig, plant, pobl anabl, gofalwyr, y rhai sy'n byw mewn tai rhent preifat neu'n gweithio mewn rhai sectorau i gyd yn fwy tebygol o brofi tlodi. Mae 44 y cant o rieni sengl, gyda 90 y cant o'r rhain yn fenywod, yn byw mewn tlodi yng Nghymru;

- Mae cyfraddau marwolaethau coronafeirws yn uwch ymysg dynion; pobl hŷn; pobl o grwpiau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; pobl â chyflyrau iechyd presennol; pobl anabl a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig;

- Mae pobl ar incwm isel, pobl ifanc, menywod a phobl o ethnigrwydd Bangladeshaidd, Du Caribïaidd a Phacistanaidd yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau 'dan glo'. Pan fydd y grwpiau hyn yn croestorri, mae'r risg yn mynd yn waeth - er enghraifft mae 39 y cant o'r holl weithwyr benywaidd o dan 25 oed yn gweithio mewn sectorau dan glo yng Nghymru;

- Mae bron i hanner y bobl ar yr incwm isaf yng Nghymru yn cael eu cyflogi mewn sectorau 'dan glo', ac maent ddeg gwaith yn fwy tebygol na'r bobl ar yr incwm uchaf i weithio yn y sectorau hyn.
- Menywod yw mwyafrif y staff iechyd a gofal, ac maent wedi cymryd cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o’r gofal di-dâl i blant a theulu;
- Mae ofnau y bydd plant â'r cyrhaeddiad addysgol isaf cyn y pandemig wedi cwympo ymhellach y tu ôl i'w cyfoedion, fel bechgyn, plant o ethnigrwydd penodol, a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol;
- Mae cadw pellter cymdeithasol a'r newidiadau i'n hamgylchedd adeiledig yn effeithio ar bobl anabl yn arbennig;
- Yn ogystal â bod fwyaf mewn perygl o'r feirws, mae pobl hŷn wedi profi trallod ychwanegol oherwydd ofnau ynghylch mynediad at driniaeth a gofal, arwahanrwydd oherwydd trefniadau gwarchod, a chamdriniaeth;
- Mae mewnfudwyr mewn perygl penodol o gael eu hamddifadu oherwydd eu bod yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau dan glo, ond hefyd eu mynediad cyfyngedig at fudd-daliadau ac arian cyhoeddus arall.

Mae’n rhaid targedu'r adferiad at y rheini sydd fwyaf ar eu colled, ac mae’n rhaid defnyddio'r cyfle hwn i unioni anghydraddoldebau presennol. Fel y dywedodd Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, mae Covid-19 wedi datgelu’r toriadau yn sgerbwd cymdeithasau ledled y byd ac wedi datgelu’r myth ein bod ni i gyd yn yr un cwch, gan ddweud er ein bod ni i gyd yn arnofio ar yr un môr, mae’n amlwg bod rhai mewn cychod mawr pwerus a bod eraill yn dal gafael mewn malurion ar wyneb y dŵr.[1]

Ers mis Mawrth, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o fesurau i fynd i'r afael â'r effeithiau penodol neu anghyfartal ar grwpiau arbennig o bobl. Er enghraifft, cyllid ychwanegol o £10 miliwn i helpu pobl sy’n cysgu ar y stryd i gael llety dros dro, darparu dehonglwr iaith arwyddion yn y sesiynau briffio dyddiol i'r wasg a darparu £3 miliwn i sicrhau bod gan blant fynediad at liniaduron tra bod ysgolion ar gau.

[1] Darlith Nelson Mandela Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, 18 Gorffennaf 2020

Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn dangos bod yn rhaid i'r ymrwymiad hwn i gydraddoldeb a hawliau dynol fynd y tu hwnt i'r sefyllfa uniongyrchol a dechrau cynllunio ar gyfer Cymru decach. Ochr yn ochr â'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, mae'r cyfnod hwn wedi taflu goleuni anghyffyrddus ar anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli yn ein cymdeithas.

Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr i'n hymchwiliad fod angen gweithredu ar unwaith, yn hytrach na chreu mwy o strategaethau. Mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith rhagorol yn ei **chynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion newydd ar gyfer 2020-24** a'i nod yn y **cynllun adfer** i fesurau gael effaith fawr ar gydraddoldeb.

Yr hyn sy'n amlwg yw nad oes un ateb sy'n addas i bawb. Mae'n rhaid targedu a theilwra polisïau, ymyriadau, cyllid a deddfwriaeth ar gyfer gwahanol anghenion a phrofiadau. Ni ellir tybio y bydd dulliau cyffredinol yn cyrraedd pawb yn gyfartal, gan fod rhwystrau penodol yn atal pobl rhag elwa arnynt yn gyfartal, yn amrywio o wahaniaethu i hygyrchedd.

Wrth lunio polisïau a chamau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn, rhaid ymgysylltu mewn ffordd wirioneddol ac ystyrlon â'r rheini y mae hyn yn effeithio arnynt fwyaf. Mae gwerth gwaith ymgysylltu o'r fath wedi bod yn thema drwy gydol y gwaith hwn a'n gwaith yn rhagflaenu'r pandemig. Ond mae hyn yn bwysicach nag erioed, gyda phenderfyniadau mor bellgyrhaeddol yn cael eu gwneud yn gyflym, ac yn cael effaith mor sylweddol ar unigolion.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn gamau gweithredu ymarferol yn y tymor byr i ganolig a fydd yn cyfrannu at wneud Cymru yn wlad decach ar ôl COVID. Rydym wedi tynnu ar yr argymhellion ymarferol rhagorol a wnaed gan yr Athro Ogbonna a'r Grŵp Cynghori BAME, ac rydym yn cymeradwyo'r holl argymhellion yn ei adroddiad.

Yn ogystal â pharatoi ar gyfer y cyfnod adfer, mae'n bwysig bod gwersi'n cael eu dysgu rhag ofn y bydd ail don o'r haint. Mae'n rhaid inni osgoi ailadrodd camgymeriadau. Gobeithiwn y bydd y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn hefyd yn helpu i lywio unrhyw benderfyniadau o'r fath.

Nid yw'r adroddiad hwn yn hollgynhwysfawr, ac nid ei fwriad yw disgrifio pob un o effeithiau anghyfartal y feirws a'r ymateb, ond byddwn yn parhau i adeiladu ar y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn nhymor yr hydref wrth i'r pandemig a'n hadferiad barhau.

## Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith ei phenderfyniadau ar gydraddoldeb a hawliau dynol

**1.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb a hawliau dynol. Ond mae'n rhaid iddi allu dangos mewn ffordd dryloyw sut mae penderfyniadau mawr ynglŷn â deddfwriaeth, polisi ac arian yn cael eu cynllunio i wella cydraddoldeb, yn ogystal ag osgoi cynyddu anghydraddoldeb.

### Asesiadau effaith

**2.** Ar ddechrau'r pandemig, roedd yn rhaid gwneud penderfyniadau'n gyflym. Roedd hyn yn golygu y bu'n rhaid byrhau prosesau arferol y Llywodraeth o wneud penderfyniadau.

**3.** Diben asesu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yw sicrhau nad yw penderfyniadau'n effeithio'n anghymesur ar bobl, boed yn uniongyrchol neu'n anfwriadol. Fe wnaeth y cyfyngiadau o ran iechyd y cyhoedd a wnaed gan Lywodraeth Cymru, fel cyfyngu pobl i wneud ymarfer corff unwaith y dydd, gael effaith fawr ar lawer o bobl, ond yn enwedig y rheini ag anableddau. Cafodd y cyfyngiadau hyn eu haddasu'n ddiweddarach er mwyn caniatáu i rai pobl anabl neu bobl â chyflyrau iechyd penodol adael eu cartrefi fwy nag unwaith y dydd i wneud ymarfer corff.

**4.** Mewn amgylchiadau arferol, byddai asesiadau effaith a gwaith ymgynghori wedi nodi mater fel hwn, ac ni fyddai'n rhaid newid y polisi ar ôl ei gyflwyno. Fel y nododd tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mae'r ffaith nad oes asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael eu cyhoeddi yn torri'r rhwymedigaethau cyfreithiol yn nyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus.[2]

**5.** Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i leihau anghydraddoldeb fel rhan o adferiad Cymru. Wrth i'r pandemig symud i gyfnod newydd a bod modd ystyried goblygiadau penderfyniadau mawr yn fwy llawn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod esiampl i weddill y sector cyhoeddus a sicrhau bod y penderfyniadau y mae'n eu gwneud yn cael eu hasesu'n llawn o ran effaith. Mae'n rhaid i'r asesiadau hyn, a'r penderfyniadau a wneir o ganlyniad, fod yn dryloyw ac yn hygyrch.

**6.** Rydym yn croesawu'r asesiadau effaith y cyhoeddodd Llywodraeth Cymru o 29 Mehefin ymlaen mewn perthynas â llacio rhai o gyfyngiadau'r cyfnod clo (gan gynnwys agor safleoedd manwerthu nad ydynt yn rhai hanfodol ac ysgolion, cael

[2] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

gwared ar y rheol 'aros yn lleol' a chaniatáu aelwydydd estynedig). Ond nid yw'r asesiadau effaith wedi mynd i'r afael ag effaith y cyfyngiadau a'r hawddfreintiau blaenorol na chawsant eu newid - er enghraifft, llacio parhaus ar ddyletswyddau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl (mae'r bennod nesaf yn rhoi mwy o fanylion am y rhain).

**7.** Ar 14 Mai 2020, dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip wrthym ei bod hi'n sicrhau bod craffu trwyadl ar "bob polisi, nid yn unig polisïau sy'n ymwneud â fy mhortffolio, ond ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, o ran effeithiau ar gydraddoldeb". Nododd hefyd fod yr offeryn asesu effaith integredig strategol wedi'i 'gryfhau', a bod yn rhaid ystyried 'aide-mémoire diwygiedig' ar yr offeryn yn erbyn pob dogfen bolisi a chyngor gweinidogol.[3]

**8.** Rydym eisoes wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â chyllidebau drafft Llywodraeth Cymru (ynghyd â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid) ynghylch pwysigrwydd cyhoeddi'r holl asesiadau effaith i ddangos tryloywder ac atebolrwydd.[4]

**9.** Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru 'er y byddai'n bosibl [cyhoeddi asesiad effaith] mae angen ystyried ymhellach a fyddai hyn yn helpu hygyrchedd, dealltwriaeth a thryloywder'.[5]

**10.** Cyhoeddodd Grŵp Cynghori Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) Llywodraeth Cymru waith ymchwil cyflym ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ym mis Mehefin 2020. Mae argymhellion yr Athro Emmanuel Ogbonna hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyhoeddi asesiadau effaith cydraddoldeb systematig.[6]

**11.** Rydym yn deall mai diben asesiad effaith yw ymgorffori ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb yn y broses o wneud penderfyniadau, na fyddant o bosibl yn arwain at ddogfen benodol. Ar wahân i'r **asesiadau effaith** ynglŷn â llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo, ni fu unrhyw arwydd o sut y caiff materion cydraddoldeb eu hystyried pan fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau deddfwriaethol, polisi ac ariannol mawr ar gyfer yr adferiad. Mae hyn yn golygu nad oes modd asesu pa mor deg neu gynhwysfawr yw penderfyniadau o'r fath. Er

[3] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 14 Mai 2020, Cofnod y Trafodion [6-8]

[4] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; a'r Pwyllgor Cyllid, Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol, Mawrth 2019,

[5] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Asesu'r effaith ar benderfyniadau cyllidebol

[6] **Grŵp Cynghori BAME Covid-19 y Prif Weinidog Adroddiad Cadeirydd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol:** Yr Athro Emmanuel Ogbonna, Mehefin 2020

enghraifft, sut cafodd cydraddoldeb ei asesu mewn perthynas â chyllid ychwanegol a ddarparwyd i fusnesau neu sectorau penodol?

**12.** Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer arwain Cymru allan o'r pandemig yn cynnwys asesiad a fydd mesurau'n cael 'effaith fawr ar gydraddoldeb',[7] heb wybodaeth am sut mae cydraddoldeb yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau, a pha ddata sy'n cael eu defnyddio i fesur canlyniadau gwirioneddol, bydd yn anodd iawn dangos beth mae 'effaith fawr ar gydraddoldeb' yn ei olygu'n ymarferol.

**13.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru, yn ei gohebiaeth ddiweddaraf â ni, wedi nodi y bydd "asesiadau effaith pellach sy'n ymwneud â deddfwriaeth a chanllawiau coronafeirws yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Llywodraeth maes o law."[8] Er bod hyn i'w groesawu, hoffem weld eglurder pellach y bydd asesiadau effaith yn cael eu cyhoeddi ar gyfer pob penderfyniad polisi a deddfwriaethol mawr.

**Recommendation 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod asesiad effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb, a dadansoddiad o'r effaith ar hawliau dynol, yn cyd-fynd â phob penderfyniad polisi neu ddeddfwriaethol mawr. Dylid cyhoeddi'r ddau ar-lein a dylid anfon copïau at y Pwyllgor hwn i'w hadolygu.

## Ymgysylltu â dinasyddion

**14.** Mae cysylltiad agos rhwng prosesau cadarn o ran asesu'r effaith ar gydraddoldeb ac ymgysylltu ystyrlon â dinasyddion. Mae ein gwaith ein hunain wedi cael ei gyfoethogi drwy ymgysylltu â'r rheini sydd â phrofiad byw. Er enghraifft, yn sgil trafodaethau â phobl â phrofiad byw, fe wnaethom ni ystyried y gefnogaeth i bobl sy'n cysgu ar y stryd sydd ag anhwylderau iechyd meddwl ac yn camddefnyddio sylweddau.[9]

**15.** Pwysleisiodd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Athro Ogbonna bwysigrwydd ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â dinasyddion wrth gynllunio ar gyfer adferiad. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol na ellir tanbrisio effaith cynhwysiant ac ymgysylltu llawn a phriodol â phobl y mae

---

[7] Llywodraeth Cymru, Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad, 24 Ebrill 2020

[8] Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 3 Awst 2020

[9] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd: Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, Rhagfyr 2019

deddfau newydd yn effeithio fwyaf arnynt.[10] Ac fe wnaeth yr Athro Ogbonna dynnu sylw at bwysigrwydd gwella cynrychiolaeth BAME wrth wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau canlyniadau economaidd-gymdeithasol gwell.[11]

**16.** Mae gwaith ymgysylltu o'r fath yn arwain at waith gwell o ran llunio polisïau, ac yn lleihau'r risgiau o ganlyniadau anfwriadol neu orfod gwrthdroi penderfyniadau polisi. Fel yr ydym eisoes wedi'i nodi, rydym yn ymwybodol iawn y bu'n rhaid gwneud penderfyniadau yn gyflym ac mewn amgylchiadau digynsail ar ddechrau'r pandemig. Wrth inni symud i gyfnod o adfer, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon fel bod profiad byw yn cael cymaint o ddylanwad â phosibl ar benderfyniadau, a hynny i sicrhau bod gwaith yn digwydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb presennol yn hytrach na'i gadarnhau.

**17.** Un o elfennau cadarnhaol yr ymateb hyd yn hyn fu parodrwydd Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal rhwng sefydliadau, swyddogion a Gweinidogion, gydag enghreifftiau o bolisi yn cael eu llywio'n uniongyrchol gan y trafodaethau hyn.[12] Rydym yn croesawu hyn yn fawr, ac yn gobeithio y bydd modd adeiladu ar y math hwn o waith partneriaeth yn y dyfodol. Ond er ei bod yn bwysig ymgysylltu â'r grwpiau hyn a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes neu'r sector perthnasol, rhaid i'r gwaith hwn hefyd gael ei ategu gan waith ymgysylltu ystyrlon a phwrpasol â dinasyddion.

**18.** Credwn y byddai gweithredu argymhelliad 1 yn helpu o ran rhoi tystiolaeth a sicrwydd inni fod gwaith ymgysylltu ystyrlon yn digwydd. Mae asesiadau effaith yn offeryn allweddol i ddangos bod gwaith ymgysylltu wedi llywio penderfyniadau, yn hytrach na dim ond ticio blwch.

## Data

**19.** Yn ystod y pandemig, daeth yn amlwg nad yw'r data sydd ar gael o ansawdd digonol o ran cyflogaeth y sector cyhoeddus, nac o ran canlyniadau iechyd. Nodwyd hyn gan ymchwil yr Athro Ogbonna mewn perthynas ag ethnigrwydd:

---

[10] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

[11] **Grŵp Cynghori BAME Covid-19 y Prif Weinidog Adroddiad C**adeirydd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol: Yr Athro Emmanuel Ogbonna, Mehefin 2020

[12] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 30 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [52]

> "Mae data ethnigrwydd o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a llawer o wasanaethau cyhoeddus eraill, yn wael. Mae Cofnod Staff Electronig y GIG yn cadw data ethnigrwydd ar 85% o gyflogeion, ond dim ond 63% o staff meddygol a deintyddol. Hefyd, ni fydd llawer o gofnodion gofal iechyd yn cofnodi ethnigrwydd y claf. Mae'r diffyg hwn yn amharu ar gywirdeb y rhan fwyaf o ddadansoddiadau o ganlyniadau iechyd, neu staff y GIG yn ôl grŵp ethnig.
>
> Ar gyfer y rhan fwyaf o ddadansoddiadau o ddata ethnigrwydd, gwneir cymariaethau â data Cyfrifiad 2011, ond gwyddys nad yw'n gyfredol, o ystyried y newidiadau demograffig ers 2011. Nid oedd y wybodaeth am farwolaethau COVID-19 a gofnodwyd i ddechrau ar gyfer achosion mewn ysbytai a gadarnhawyd drwy e-Ffurflen gwyliadwriaeth Porth Clinigol Cymru yn cynnwys unrhyw ddata ethnigrwydd."[13]

**20.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Grŵp Cynghori BAME wedi cyhoeddi'r **asesiad risg yn y gweithle ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol**, ond gellid tanseilio mesurau o'r fath heb wybod data cydraddoldeb allweddol am weithluoedd cyswllt uchel.

**21.** Fe wnaeth ymatebwyr i'n hymchwiliad hefyd nodi'r diffyg data cydraddoldeb mewn perthynas ag anabledd. Er enghraifft, dywedodd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, er bod **tystiolaeth** o Loegr yn dangos cynnydd o 134 y cant yn nifer y marwolaethau ymysg pobl hŷn ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth, nid oes data cymaradwy ar gyfer Cymru.[14]

**22.** Ar 14 Mai, cydnabu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y bylchau o ran casglu data mewn perthynas ag iechyd, gan ddweud bod data marwolaeth yn aml yn llywio penderfyniadau, gan gyfrannu at gorff o dystiolaeth, ond nid oes o reidrwydd ganddynt yr holl ddata sydd eu hangen arnynt. Rydym yn croesawu ei llythyr at yr Ysgrifennydd Cartref yn annog Llywodraeth y DU i gynnwys ethnigrwydd ar dystysgrifau marwolaeth, a'i chais i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ymestyn y data y mae'n eu cyhoeddi ar farwolaethau yn ôl galwedigaeth i gynnwys data allweddol ar gyfer Cymru.

---

[13] **Grŵp Cynghori BAME Covid-19 y Prif Weinidog Adroddiad Cadeirydd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol: Yr Athro Emmanuel Ogbonna**, Mehefin 2020

[14] **ELGC COV25 Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru - tystiolaeth ysgrifenedig**

**23.** Yn ei llythyr atom ar 30 Mehefin, dywedodd y Dirprwy Weinidog "ers 6 Mai, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnwys ethnigrwydd a statws gweithiwr allweddol fel maes yn eu system adrodd uwch ar gyfer gwyliadwriaeth gyflym o farwolaethau Covid-19", ond hefyd "nid oedd ethnigrwydd wedi'i nodi ar gyfer oddeutu 30% o'r marwolaethau a adroddwyd drwy system gwyliadwriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru".[15] Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r data hyn ar gael ar **Dangosfwrdd Gwyliadwriaeth Cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer COVID-19**.

**24.** Mae dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gosod rhwymedigaethau ar y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus Cymru i wneud pethau fel llunio amcanion cydraddoldeb, cynnal asesiadau effaith, ymgysylltu â grwpiau yr effeithir arnynt a chasglu data cydraddoldeb (ymhlith eraill).

**25.** Yn 2018, fe wnaethom ni argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â chasglu a chyhoeddi data cydraddoldeb o ran cyflogaeth.[16]

**26.** Mewn ymateb i'n hargymhellion ynghylch dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn 2018, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod:

> "yn wirioneddol ystyried yr argymhellion. Mae llawer o'r argymhellion hynny'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r angen i adolygu rheoliadau a threfniadau adrodd Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru.
>
> Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, yn ei swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb, sydd â throsolwg o'r adolygiad [..] Bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), sef rheoleiddiwr y Ddyletswydd, i ystyried y canlyniadau a threfniadau monitro'r adolygiad.
>
> Bydd hyn yn sicrhau bod trefniadau adrodd yn y dyfodol yn gadarn ac yn sicrhau bod y cyrff rhestredig yn cyhoeddi eu data mewn ffyrdd tryloyw, hawdd eu dilyn a hawdd cael gafael arnynt. Bydd hyn yn unol

[15] Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at y Pwyllgor, 30 Mehefin 2020

[16] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Wrth eich gwaith: Rhianta a Chyflogaeth yng Nghymru, Gorffennaf 2018

> â'n hawydd i hyrwyddo egwyddorion data agored ar draws cyrff cyhoeddus Cymru."[17]

**27.** Mae adroddiad yr Athro Emmanuel Ogbonna hefyd yn argymell gwella ansawdd cofnodi data ethnigrwydd ar unwaith yn y GIG ac ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn argymell gwelliannau o ran casglu data a chysylltiadau â gwahanol fathau o farwolaethau, wedi'u dadgyfuno yn ôl gwahanol nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys ethnigrwydd.[18]

**28.** Mae'r diffyg data cydraddoldeb o ansawdd, yn enwedig yn y GIG, yn peri pryder arbennig. Os nad oes modd adnabod pobl sydd mewn perygl uwch o gael coronafeirws oherwydd eu hethnigrwydd, anabledd neu gyflyrau iechyd, mae asesiadau risg yn y gweithle yn debygol o fod yn llai effeithiol. Yn yr un modd, mae data am achosion a marwolaethau coronafeirws yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau a chynllunio.

**29.** Fel y nododd nifer o ymatebwyr, nid oes gan ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus bwerau gorfodi, a fydd yn bwysicach fyth mewn cyfnod lle mae anghydraddoldebau yn ddifrifol ac yn gwaethygu.

**Recommendation 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithredu ar unwaith i wella ansawdd o ran cofnodi data cyflogaeth ynghylch ethnigrwydd ac anabledd ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Recommendation 3.** Dylai Llywodraeth Cymru wella'r prosesau ar gyfer casglu a chyhoeddi data ar achosion coronafeirws a chanlyniadau iechyd wedi'u dadgyfuno yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anabledd a statws gweithiwr allweddol. Dylai hyn gynnwys, lle bo angen, nodi dulliau casglu amgen a ffynonellau data newydd.

**Recommendation 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r adolygiad o ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus Cymru, gan ganolbwyntio ar gryfhau gorfodaeth a chasglu data cyflogaeth.

---

[17] Llywodraeth Cymru, Ymateb i Wrth eich gwaith: Rhianta a Chyflogaeth yng Nghymru, Medi 2018

[18] **Grŵp Cynghori BAME Covid-19 y Prif Weinidog Adroddiad C**adeirydd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol: Yr Athro Emmanuel Ogbonna, Mehefin 2020

## Hawliau dynol

**30.** Yn ystod cyfnod brys y pandemig, bu’n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud llawer o benderfyniadau a oedd yn cyfyngu ar hawliau dynol i ryddid, bywyd teuluol a gwrandawiad teg, ymhlith eraill, i amddiffyn yr hawl i fywyd. Cafodd y mesurau a gymerwyd i amddiffyn poblogaeth y DU rhag y coronafeirws eu galw y cyfyngiadau mwyaf pellgyrhaeddol ar ryddid sifil am o leiaf 75 mlynedd.

**31.** O dan gyfraith hawliau dynol rhyngwladol, mae iechyd y cyhoedd yn rheswm derbyniol dros gwtogi ar yr hawliau hyn, cyhyd â bod hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur. Mae **rheoliadau iechyd cyhoeddus** Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu cymesuredd y cyfyngiadau a'r gofynion, a'r angen amdanynt, bob 21 diwrnod. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r dadansoddiadau hawliau dynol yn yr asesiadau effaith sut y caiff cymesuredd ei asesu mewn perthynas â'r mesurau parhaus fel hawddfreintiau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl.

**32.** Gan fod penderfyniadau yn dechrau cael eu gwneud mewn perthynas â'r cyfnod adfer, mae'n hanfodol bod hawliau dynol yn ystyriaeth graidd. Mae’r Cenhedloedd Unedig a **Sefydliad Iechyd y Byd** yn datgan yn glir bod hawliau dynol yn allweddol i’r ymateb i’r coronafeirws a’r adferiad, gan eu bod yn hoelio ein sylw ar bwy sy’n dioddef fwyaf, pam, a beth y gellir ei wneud yn ei gylch.[19]

**33.** Mae cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer tywys Cymru allan o'r pandemig yn nodi egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio i archwilio ffyrdd o leddfu'r cyfyngiadau presennol. Yr un olaf o’r saith egwyddor hyn yw asesu a fydd y mesur yn cael “effaith gadarnhaol iawn ar gydraddoldeb”, ond nid yw'n sôn am hawliau dynol.[20] Mae'r cynllun cyfatebol ar gyfer yr Alban yn ymrwymo i amddiffyn y rheini sydd fwyaf mewn perygl a gwarchod hawliau dynol. Mae fframwaith asesu pedair rhan yr Alban yn cynnwys ystyried goblygiadau hawliau dynol, yn ogystal ag effeithiau cydraddoldeb.[21]

**34.** Rydym yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i offerynnau hawliau dynol drwy ddeddfwriaeth ddomestig, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac mae'n awyddus i ymgorffori mwy. Nododd y Dirprwy Weinidog fod lle blaenllaw i’r cwestiwn allweddol iawn hwn

---

[19] Y Cenhedloedd Unedig, COVID-19 a Hawliau Dynol, Ebrill 2020

[20] Llywodraeth Cymru, Arwain Cymru allan o’r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad, 24 Ebrill 2020

[21] Llywodraeth yr Alban, Coronafeirws: fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau, Ebrill 2020

am hawliau dynol fel sail i'r ffordd yr ydym yn symud allan o'r pandemig COVID-19.[22]

**35.** Er ein bod yn croesawu asesiadau Llywodraeth Cymru o'r goblygiadau i hawliau dynol yn sgil llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo, a gyhoeddwyd o 29 Mehefin ymlaen, rydym yn ailadrodd ein pryder cynharach nad yw'r asesiad yn mynd i'r afael â'r mesurau presennol a oedd heb eu newid. Er enghraifft, mae parhau i lacio dyletswyddau Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru yn cael effaith sylweddol ar yr hawl i wrandawiad teg, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi asesiad o pam mae'r mesur hwn yn gyfyngiad cymesur o hyd. Mae'r bennod nesaf yn archwilio'r mater hwn yn fanylach.

**36.** Wrth i'r cyfnod brys o ran iechyd y cyhoedd ddod yn llai difrifol, rhaid i Lywodraeth Cymru fynegi pam mae rhai o'r cyfyngiadau yn parhau i fod yn gymesur.

**Recommendation 5.** Dylai Llywodraeth Cymru fynegi rheidrwydd a chymesuredd yr holl gyfyngiadau presennol yn ei dadansoddiad hawliau dynol, a gyhoeddir ochr yn ochr â phob adolygiad 21 diwrnod.

### Pobl hŷn

**37.** Ar 21 Mai, galwodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar i Lywodraeth Cymru fod yn destun ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) oherwydd pryderon y gallai hawliau pobl hŷn fod wedi cael eu torri, a hynny mewn cartrefi gofal ac yn ehangach.[23] Yn dilyn hynny, ar 21 Gorffennaf cyhoeddodd y Comisiynydd a'r EHRC ddatganiad yn dweud eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i "ystyried a yw Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi cyflawni eu cyfrifoldebau i gynnal hawliau dynol pobl hŷn."[24] Rydym yn croesawu'r gwaith hwn ac yn aros am y canfyddiadau.

**38.** Ar ddechrau'r pandemig, roedd yna achosion yn peri pryder lle roedd pobl hŷn ac agored i niwed yn teimlo dan bwysau i lofnodi hysbysiadau peidiwch â cheisio dadebru / CPR. Roedd hyn yn gwneud i bobl deimlo nad oedd eu bywydau werth unrhyw beth.[25] Mae hyn yn arwydd o sut y gall penderfyniadau

[22] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 14 Mai 2020, Cofnod y Trafodion [75]

[23] Datganiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 21 Mai 2020

[24] Datganiad ar y cyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru; 21 Gorffennaf 2020

[25] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [120]

(gan gynnwys y penderfyniadau y mae'r adran nesaf yn eu harchwilio) wneud i bobl deimlo bod eu bywydau werth llai nag eraill mewn cymdeithas. Rydym yn falch bod mesurau lliniaru bellach wedi'u rhoi ar waith fel na fydd cyfathrebiadau cyffredinol o'r fath yn cael eu cyhoeddi, ond mae'n enghraifft o sut mae'n rhaid dysgu gwersi o ddyddiau cynnar y pandemig, fel nad yw digwyddiadau trallodus o'r fath yn digwydd eto.

## Mae'n rhaid gwrthdroi'r penderfyniadau i lacio dyletswyddau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl

**39.** Rhoddodd Deddf Coronafeirws y DU 2020 bwerau i Lywodraeth Cymru lacio rhai dyletswyddau (ymhlith pethau eraill), sy'n golygu:

- nid oes rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o anghenion ar hyn o bryd ar gyfer oedolion a gofalwyr sy'n oedolion, ac nid oes dyletswydd arnynt mwyach i fodloni anghenion gofal a chymorth cymwys oedolion, nac anghenion gofalwyr sy'n oedolion am gefnogaeth;
- hefyd, nid oes dyletswydd ar awdurdodau lleol ar hyn o bryd i gynnal asesiad effaith ariannol, lle byddai prawf modd fel arfer yn cael ei gymhwyso i bennu faint y mae'n rhaid iddynt ei gyfrannu at eu gofal; ac
- nid oes gofyniad ar hyn o bryd bod yn rhaid cael o leiaf tri aelod i ffurfio Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru, ac mewn amgylchiadau penodol, gellir penderfynu ar achosion heb wrandawiad lle gallai hynny fod yn anymarferol, neu lle byddai'n niweidiol i iechyd y claf.

**40.** Fe wnaeth llawer o'r ymatebwyr i'n hymchwiliad, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn[26] a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[27] fynegi bryder difrifol bod yr 'hawddfreintiau' wedi eu 'troi ymlaen' yng Nghymru o hyd. Nod yr hawddfreintiau oedd lleihau'r pwysau ar adnoddau'r GIG ac awdurdodau lleol, ond nid yw'n eglur pam eu bod yn dal i fod yn angenrheidiol.

**41.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, os byddwn yn mynd heibio'r gaeaf heb ail don, y gellid diddymu'r elfen hon o'r ddeddfwriaeth. Dywedodd hefyd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw awdurdod lleol sydd angen defnyddio'r pwerau hynny mewn gwirionedd, yn rhannol oherwydd bod

---

[26] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [196]

[27] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [9]

awdurdodau wedi gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol i ddatblygu ffyrdd o amgylch hyn.

**42.** Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrthym mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi stopio gwasanaethau yn ffurfiol, ond bod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod pobl yn cael gwasanaethau llai.[28] Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei bod yn deall bod 460 o becynnau gofal, allan o 23,000, wedi cael eu lleihau neu eu tynnu’n ôl.[29]

**43.** Mae'r hawddfreintiau ym maes gofal cymdeithasol yn effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn ac anabl. Mae'r ffaith eu bod yn eu lle o hyd yn anfon neges bwerus i'r grwpiau hynny o bobl nad yw cyflawni eu hanghenion gofal yn cael ei ystyried yn hanfodol. Nodwn hefyd nad yw gofynion tebyg wedi cael eu llacio ar gyfer cefnogaeth i blant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â'r materion trallodus ynghylch mynediad at driniaeth, yr hysbysiadau DNACPR, a'r profiadau o warchod yn ystod y cyfnod hwn, mae pobl hŷn ac anabl yn teimlo bod eu bywydau a'u hanghenion ar waelod y rhestr o ran gwasanaethau cyhoeddus.

**44.** O ran y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, mae cyngor cyfreithiol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dweud bod cyfarwyddiadau ymarfer Cymru yn mynd ymhellach na'r rhai cyfatebol yn Lloegr. Er bod fersiynau Cymru a Lloegr yn caniatáu cynnal achos heb wrandawiad mewn rhai amgylchiadau, gall tribiwnlys yng Nghymru wneud hynny heb gydsyniad y partïon, yn wahanol i Loegr.

**45.** Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi:

> “These provisions may have been necessary and proportionate during the immediate response to the Coronavirus pandemic, however they potentially breach the Human Rights Act 1998 and Articles 5 and 6 of the European Convention on Human Rights.
>
> We are particularly concerned that some mental health lawyers have told Mind that hospitals are not introducing processes quickly enough to facilitate electronic disclosure of notes or even telephone contact

[28] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

[29] Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 16 Gorffennaf 2020, Cofnod y Trafodion [165]

with lawyers. Access to legal representation is an essential element of Article 6 for individuals detained under the Mental Health Act 1983.”[30]

**46.** Fel rheol, cynhelir y gwrandawiadau hyn mewn ysbytai sydd eisoes â phrotocolau rheoli heintiau. Mae'n bosibl gwneud trefniadau ar gyfer gwrandawiadau wyneb yn wyneb, sy'n caniatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol o ddwy fetr a/neu ar gyfer gwrandawiadau hybrid lle mae gan y Panel gyswllt fideo â'r unigolyn, ei gynrychiolydd cyfreithiol a nyrs sydd yn yr ysbyty. Mae hyn yn debygol o ddangos nad yw ymyrraeth â hawliau dynol yn gymesur nac yn angenrheidiol.[31]

**47.** Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn nodi bod y newidiadau i'r Tribiwnlys yn rhoi pobl anabl o dan fwy o anfantais. Mae Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig Cymru yn nodi bod hyn hefyd yn debygol o effeithio’n anghymesur ar grwpiau BAME.[32] Rydym yn ymwybodol o adroddiadau bod pobl yn cael eu rhyddhau o unedau iechyd meddwl yng Nghymru ac yn cael eu hysbysu i geisio cael eu hailgyfeirio ar ôl y pandemig.[33] Ochr yn ochr â'r llacio ychwanegol ar ddyletswyddau iechyd meddwl, gallai pobl gael eu cadw'n ddiangen neu eu rhyddhau heb y gefnogaeth gywir, sydd â goblygiadau i hawl ddynol pobl i ryddid, a hyd yn oed eu hawl i amddiffyn eu bywyd.

**48.** Wrth i’r Ddeddf Coronafeirws gael ei phasio, fe wnaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol argymell mai dim ond cyn belled ag sy’n gwbl ofynnol y dylid ymestyn y trefniadau i lacio mesurau diogelwch ar roi pobl dan gadw, o ran amser a chwmpas, ac y dylid monitro ac addasu hyn yn rheolaidd.[34]

**49.** Mae'n amlwg bod yr hawddfreintiau hyn yn cael effaith anghymesur a negyddol ddiangen ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, ac y dylid eu gwrthdroi. Nid ydym yn credu y dylid cadw'r hawddfreintiau yn eu lle os bydd ail don dros y gaeaf, ac rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol yr holl gefnogaeth ac adnoddau angenrheidiol i sicrhau na chaiff unrhyw becynnau gofal eu tynnu’n ôl neu eu lleihau.

---

[30] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

[31] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

[32] ELGC COV 17 Tystiolaeth ysgrifenedig EYST

[33] Newyddion y BBC, Cleifion iechyd meddwl yn cael eu rhyddhau 'yn groes i’r canllawiau', 20 Mai 2020v

[34] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Llythyr at y Prif Weinidog ar ystyriaethau hawliau dynol a chydraddoldeb wrth ymateb i bandemig y coronafeirws, 19 Mawrth 2020v

**Recommendation 6.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr hyn a ganlyn:

- 'diffodd' y mesurau yn Neddf Coronafeirws 2020 sy'n llacio dyletswyddau gofal cymdeithasol ac iechyd meddwl; a
- chyhoeddi data ar nifer y bobl y mae'r mesurau hyn yn effeithio arnynt, wedi'u dadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchodedig.

## Dylid targedu gwasanaethau cyhoeddus at y rhai sydd eu hangen fwyaf

**50.** Mae **bron i chwarter** o bobl Cymru yn byw mewn tlodi. Mae pobl o rai grwpiau ethnig, plant, pobl anabl, gofalwyr, y rheini sy'n byw mewn tai rhent preifat neu'n gweithio mewn sectorau penodol oll **yn fwy tebygol o brofi tlodi**. Mae **44 y cant o rieni sengl** yn byw mewn tlodi yng Nghymru.

**51.** Mae **data ONS** wedi dangos bod pobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ddwywaith yn fwy tebygol o farw gyda choronafeirws na'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae gweithwyr ar gyflog is hefyd yn fwy tebygol o weithio mewn sectorau nad ydynt yn weithredol ar hyn o bryd, ac yn llai tebygol o allu gweithio gartref.

**52.** Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd tlotach hefyd yn fwy tebygol o fod â chyflyrau iechyd sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl o gymhlethdodau yn sgil y coronafeirws, fel canser yr ysgyfaint a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD), diabetes, gordewdra a chlefyd cardiofasgwlaidd.

**53.** Gellir dylanwadu ar rai o'r rhain trwy newidiadau mewn ymddygiad (fel ysmygu), ond mae eraill yn gysylltiedig â llygredd. Dywedodd Coleg Brenhinol y Meddygon fod ansawdd aer dan do ac awyr agored, ochr yn ochr â gorlenwi, yn cael effaith ar ymlediad y feirws.[35] Mae'r rhain yn ffactorau lle mae tlodi'n chwarae rhan.

**54.** Mae lefelau tlodi a'i effaith yng Nghymru wedi bod yn faes sy'n peri pryder sylweddol i ni, ac i'r Pwyllgor a oedd yn ein rhagflaenu. Rydym wedi dadlau dro ar ôl tro dros yr angen am strategaeth drawsbynciol a chynhwysfawr ar gyfer atal tlodi, gyda thargedau, cyflawniadau a cherrig milltir clir y gellir asesu cynnydd yn

[35] ELGC COV 28 Tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Meddygon

eu herbyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad hwn ar ddau achlysur gwahanol.[36]

**55.** Mae effaith ddinistriol y pandemig ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn gwneud yr achos dros strategaeth o'r fath yn gryfach fyth, gan ei fod yn seiliedig ar fodel cyflenwi ar sail canlyniadau, gan alluogi cymunedau a dinasyddion i adeiladu ar asedau unigol a chymunedol i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar ymgysylltu gwirioneddol ac ystyrlon â dinasyddion.

**56.** Rhaid bod atebolrwydd ac arweinyddiaeth glir yn cyd-fynd â strategaeth o'r fath. Heb hyn, bydd y maes hwn yn parhau i lithro, heb arweinyddiaeth glir i fwrw ymlaen â'r newidiadau angenrheidiol. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau difrifol y mae'r pandemig hwn wedi'u datgelu, ac mae strategaeth o'r fath yn offeryn hanfodol.

**57.** Byddem hefyd yn adleisio barn y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bod angen i Lywodraeth Cymru, wrth symud i adferiad, gefnogi unrhyw ddulliau newydd o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb gyda strwythur atebolrwydd cadarn ar draws y Llywodraeth ac adnoddau ar gyfer cyflawni.[37] Er hynny, nid yw strategaeth ar ei phen ei hun yn ddigon; mae'n rhaid ei chefnogi gyda digon o adnoddau, ac mae'n rhaid iddi fod yn effeithiol fel ffordd o ddwyn Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflenwi i gyfrif.

**58.** Fe wnaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol argymell y dylai cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn rhan o ddull strategol eang i atal tlodi.[38] Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, er bod y broses o gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi'i gohirio, mai dyma yw un o brif flaenoriaethau'r broses adfer.[39] Ar 16 Gorffennaf 2020, ymrwymodd y Dirprwy Weinidog i gychwyn ar y ddyletswydd ar 31 Mawrth 2021,[40] ac rydym yn croesawu hyn. Credwn y bydd cychwyn y ddyletswydd yn chwarae rhan bwysig o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y dyfodol. Fodd bynnag, nes iddi gychwyn rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gadw at ysbryd y ddyletswydd

---

[36] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd, Hydref 2017; ac Ymateb Llywodraeth Cymru i Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel, Gorffennaf 2018

[37] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

[38] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

[39] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 14 Mai 2020, Cofnod y Trafodion [40]

[40] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cymru Fwy Cyfartal – cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol 16 Gorffennaf 2020

economaidd-gymdeithasol. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn annog cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth, ac yn dechrau datblygu trefniadau i fonitro hyn cyn cychwyn y ddyletswydd.

**59.** Mae darparu prydau ysgol am ddim yn offeryn pwysig i liniaru rhai o effeithiau mwyaf uniongyrchol tlodi. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim drwy gydol gwyliau'r haf. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o bryderon ynghylch y gwahanol ddulliau ar gyfer cyflawni'r polisi hwn ledled Cymru.[41] Mae gan Lywodraeth Cymru rôl o ran monitro ac adolygu effeithiolrwydd gwahanol ddulliau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd rhagor o gyfyngiadau symud yn lleol neu'n genedlaethol dros y misoedd nesaf.

**60.** O ystyried y ffaith bod y feirws yn fath fygythiad i fywyd a'r effaith ddinistriol y mae wedi'i chael ar y tlotaf yn ein cymdeithas, nawr yw'r amser i ail-feddwl o ddifrif am sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu cefnogi. Er y bydd rhoi ffocws o'r newydd i ymdrechion gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd amser, rydym yn argymell rhai camau i'w cymryd ar unwaith, a fydd, yn ein barn ni, yn helpu i ddechrau'r gwaith hwn yn y tymor byr.

**Recommendation 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth lleihau tlodi ar gyfer y Llywodraeth gyfan, gyda thargedau a dangosyddion perfformiad.

**Recommendation 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gadw at ysbryd a bwriad y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei holl benderfyniadau nes ei chychwyn ym mis Mawrth 2021, a dylai ddatblygu trefniadau dros dro i fonitro sut mae'n cyflawni ysbryd y ddyletswydd cyn ei chychwyn yn llawn. .

**Recommendation 9.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac adolygu sut mae awdurdodau lleol yn darparu prydau ysgol am ddim dros wyliau'r haf.

## Mae angen i bobl wybod beth yw eu hawliau

**61.** Mae'r pandemig yn cael, a bydd yn parhau i gael, effaith ddifrifol ar economi Cymru, gyda gweithwyr yn colli incwm oherwydd trefniadau ffyrlo, gostyngiadau mewn oriau neu dâl, colli swyddi a llawer o fusnesau mewn sectorau dan glo yn colli symiau sylweddol o incwm. Bydd gwahanol grwpiau o bobl, gwahanol

[41] ELGC COV09 Sefydliad Bevan; a'r Phwyllgor Cydraddoleb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [219]

ddiwydiannau a gwahanol leoliadau daearyddol yn teimlo effeithiau hyn mewn gwahanol ffyrdd.

## Cyflogaeth

**62.** Mae llawer o sectorau wedi gorfod cau'n llwyr, tra bod eraill wedi bod yn hanfodol i'r ymateb. Mae rhai grwpiau o bobl yn llawer mwy tebygol o weithio yn y sectorau hynny.

**63.** Mae prosiect Dadansoddiad Cyllidol Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd yn amcangyfrif bod 228,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn 'sectorau dan glo' Cymru, sef tua 16 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio. Canfu'r ymchwil y canlynol:

- roedd bron hanner y degradd cyflog isaf o weithwyr o Gymru yn gweithio yn sectorau dan glo yr economi. Roedd hyn yn golygu bod y cyfnod clo ddeg gwaith yn fwy tebygol o effeithio arnynt, o'i gymharu â'r degradd sy'n ennill y cyflog uchaf;
- mae mesurau cloi wedi taro'r gweithwyr ieuengaf galetaf, gyda gweithwyr o dan 25 oed bron i deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn gweithio yn y sectorau dan glo;
- roedd yr effaith hefyd yn amrywio yn ôl rhyw, gydag 18 y cant o weithwyr benywaidd yn gweithio yn y sectorau dan glo o gymharu ag 14 y cant o weithwyr gwrywaidd; ac
- roedd gweithwyr o ethnigrwydd Bangladeshaidd, Du Caribïaidd a Phacistanaidd yn llawer mwy tebygol o fod yn gweithio yn y sectorau dan glo yng Nghymru. [42]

**64.** Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata ar gyflogaeth a nodweddion gwarchodedig, a ganfu:

- Gweithwyr Bangladeshaidd, ac o ethnigrwydd Du Caribïaidd/Affricanaidd/Prydeinig oedd fwyaf tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau critigol yng Nghymru;

[42] Prifysgol Caerdydd, Dadansoddiad Cyllidol Cymru **COVID-19 ac economi Cymru: sectorau dan glo a gweithwyr allweddol 25 Mehefin 2020**

- Menywod a gweithwyr o leiafrifoedd ethnig oedd fwyaf tebygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau sydd â'r cyswllt posibl mwyaf â'r coronafeirws;
- Roedd gweithwyr anabl ychydig yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn sector 'dan glo' na'r rheini heb anabledd; ac
- Mae dynion yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig.[43]

**65.** Wrth i Gynllun Cadw Swyddi Coronafeirws Llywodraeth y DU ddechrau gofyn am gyfraniadau gan gyflogwyr o fis Awst, a dod i ben ym mis Hydref, mae'n ymddangos yn debygol y bydd llawer o weithwyr 'ar ffyrlo' yn cael eu diswyddo. Mae'n hanfodol bod y bobl hyn yn gallu cael cymorth a chyngor ynghylch eu hawliau mewn perthynas â chyflogaeth a budd-daliadau.

**66.** Bydd miloedd o bobl yn defnyddio'r system fudd-daliadau am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod hwn, ac efallai y byddant yn ceisio cyngor ar gymorth gyda hawliau diswyddo, help gyda thalu biliau a chostau eraill.

**67.** Yn y cyfnod rhwng 16 Mawrth a 6 Mai, cafodd tudalennau gwefan Cyngor ar Bopeth **eu darllen 13 miliwn o weithiau**, sef cynnydd o 29 y cant o'i gymharu â'r llynedd. Roedd y tudalennau yr ymwelwyd â hwy fwyaf yn cynnwys pynciau fel budd-daliadau, tâl salwch, cyfnod ffyrlo a hawliau gweithwyr. Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru wrthym ei fod wedi helpu mwy na 20,000 o bobl yng Nghymru ers dechrau'r cyfnod clo.[44]

**68.** Mae gwasanaethau cynghori yn ffordd hanfodol o sicrhau bod pobl yn gallu cael yr holl fudd-daliadau, gostyngiadau a chynlluniau y mae ganddynt hawl iddynt. Gyda llawer o bobl mewn perygl o gael eu diswyddo, a chyda rhai grwpiau yn fwy tebygol o fod mewn perygl nag eraill, mae hefyd yn hanfodol bod gweithwyr yn gwybod eu hawliau cyflogaeth.

## Manteisio ar fudd-daliadau a hawliau cyflogaeth

**69.** Yn ein hadroddiad ym mis 2019 ar ddarparu budd-daliadau yng Nghymru, fe wnaethom ni argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu i wella'r nifer sy'n hawlio pob budd-dal yng Nghymru, y rhai wedi'u datganoli a heb eu datganoli. Mae'r pandemig a'i effaith ar incwm pobl wedi gwneud ymgyrch o'r fath yn

[43] Llywodraeth Cymru, Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchodedig
[44] **ELGC COV20 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor ar Bopeth Cymru**

bwysicach fyth. Dylai hyn fod ar ffurf ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus eang a helaeth o leiaf.

**70.** Fe wnaethom ni argymell hefyd y dylid gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor ynghylch budd-daliadau sy'n anelu at sicrhau bod pobl yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.[45]

**71.** Ym mis Mai 2020, ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn, gan nodi:

> "Mae argyfwng y coronafeirws wedi dangos pwysigrwydd rhwyd ddiogelwch y budd-daliadau lles yn glir. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn rhoi'r cyngor a chymorth priodol i gymunedau yng Nghymru. Mae hynny'n helpu i sicrhau nad oes neb yn syrthio drwy'r bylchau.
>
> Mae nifer mwy o bobl yn debygol o angen help nid yn unig yn ystod yr argyfwng presennol, ond hefyd y tu hwnt i hynny. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth ariannol sydd ar gael gan system y budd-daliadau lles. Mae'r Gweithgor yn parhau i gyfarfod yn ystod y cyfnod hwn, gan gyfleu'r neges am y nifer sy'n hawlio'r Credyd Pensiwn a budd-daliadau eraill i helpu'r rheini sydd fwyaf mewn angen.
>
> Bellach, rydym yn barod i ehangu gwaith y Gweithgor i edrych ar y nifer sy'n hawlio pob budd-dal lles, drwy Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cymorth ariannol sydd ar gael i grwpiau sy'n agored i niwed."[46]

**72.** Ym mis Mawrth 2019, argymhellodd y Comisiwn Gwaith Teg hefyd y dylai Llywodraeth Cymru gynorthwyo gweithwyr i orfodi eu hawliau drwy hwyluso argaeledd cyngor a chymorth, a mynediad atynt, er enghraifft drwy gymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau cynghori a chymorth.[47]

**73.** Mae gwybod ble i fynd i gael gwybod am hawliau cyflogaeth hyd yn oed yn bwysicach pan fydd bywydau pobl mewn perygl. Er enghraifft, er bod gan

---

[45] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau **Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well**, Hydref 2019

[46] **Ymateb Llywodraeth Cymru i Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well**, Mai 2020

[47] Gwaith Teg Cymru, Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg, Mawrth 2019

gyflogwyr ddyletswyddau cyfreithiol i wneud gweithleoedd yn ddiogel i fenywod beichiog, cafwyd **adroddiadau** bod llawer o gyflogwyr yn mynnu bod menywod beichiog yn gweithio mewn rolau rheng flaen o hyd, hyd yn oed yn y GIG. Canfu **astudiaeth** o 427 o fenywod beichiog a'u babanod yn ystod y pandemig bod 55 y cant o fenywod beichiog a dderbyniwyd i'r ysbyty â choronafeirws yn dod o gefndir BAME.

**74.** Mae gwasanaethau cynghori hefyd yn allweddol o ran helpu pobl pan fydd eu gwaith, awdurdodau cyhoeddus neu fusnesau wedi gwahaniaethu yn eu herbyn. Argymhellodd yr Athro Ogbonna y dylid sefydlu llinell gymorth BAME a fframwaith cyfrinachedd mewn canllawiau yn y gweithle, fel y gall gweithwyr herio’n ddiogel a chodi pryderon, gan y byddai hyn yn caniatáu i weithwyr nodi pryderon am gyfarpar diogelu personol a phryderon eraill yn hyderus. Gallai hyn fod yn fodel i’w ddefnyddio mewn cyd-destunau cyflogaeth ehangach.[48] Gallai gwasanaeth cynghori presennol yng Nghymru ddarparu llinell gymorth o'r fath.

**75.** Fe wnaethom ni glywed tystiolaeth am arferion cyflogaeth peryglus, annheg a gwahaniaethol. Er enghraifft, dywedodd y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig wrthym am bryderon eang bod gwladolion yr UE yn cael eu gorfodi i weithio mewn amodau anniogel gan eu cyflogwyr[49] a’u bod yn gwybod am enghreifftiau niferus o bobl yn gwneud cwynion am hiliaeth yn y gwaith sydd naill ai heb fynd i unman neu wedi cael effaith negyddol ar yr unigolyn.[50] Wrth i swyddi fynd yn fwy prin, mae'n hanfodol bod pobl yn gwybod beth yw eu hawliau a sut i herio cyflogwyr heb berygl o golli eu swyddi. Mae'r dystiolaeth a glywsom hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd blaenoriaethu gwaith teg yng ngwaith Llywodraeth Cymru ar adfer yr economi.

**76.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau, ‘Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol’, yn ymrwymo i “adferiad yn cael ei arwain gan werthoedd, a’r egwyddorion arweiniol fydd cyfiawnder cymdeithasol, gwaith teg a chynaliadwyedd amgylcheddol”. [51]

---

[48] **Grŵp Cynghori BAME Covid-19 y Prif Weinidog Adroddiad C**adeirydd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol: Yr Athro Emmanuel Ogbonna, Mehefin 2020

[49] ELGC COV17 Tystiolaeth ysgrifenedig EYST

[50] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [262]

[51] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol

**77.** Rydym yn croesawu Cronfa Ymateb y Trydydd Sector gwerth £24 miliwn gan Lywodraeth Cymru, a'r wybodaeth gan y Dirprwy Weinidog ei bod wedi rhoi mwy o gymorth TG i Cyngor ar Bopeth er mwyn gallu rhoi cyngor.[52]

**78.** Fodd bynnag mae angen i Lywodraeth Cymru fynd ymhellach o lawer i atal pobl rhag mynd i argyfwng wrth inni symud i gam nesaf y pandemig. Nid yw'n ddigon i edrych i ehangu gwaith y grŵp hwn i edrych ar yr holl fudd-daliadau lles sy'n cael eu cymryd;[53] mae angen gweithredu'n feiddgar ac ar unwaith i sicrhau bod incwm pobl yn cael ei gynyddu i'r eithaf ar adeg dyngedfennol, a bod pobl yn gwybod beth yw eu hawliau yn y gwaith ac mewn sefyllfaoedd o ddiswyddo.

**Recommendation 10.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa fesurau gwaith teg ychwanegol y mae'n ystyried eu rhoi ar waith i sicrhau "adferiad yn cael ei arwain gan werthoedd, a'r egwyddorion arweiniol fydd cyfiawnder cymdeithasol, gwaith teg a chynaliadwyedd amgylcheddol".

**Recommendation 11.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n gynt i weithredu argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg nad oes angen deddfwriaeth arnynt, gan gynnwys gwella gwybodaeth am hawliau cyflogaeth a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu i sefydliadau sy'n bodloni'r safon gwaith teg yn unig.

**Recommendation 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu cyllid yn sylweddol i wasanaethau cynghori sydd ag arbenigedd ym maes cyflogaeth, budd-daliadau a gwahaniaethu, gan gynnwys creu llinell gymorth yn benodol ar gyfer gweithwyr BAME a gweithwyr anabl i roi gwybod am bryderon ynghylch diogelwch a gwahaniaethu.

**Recommendation 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch gynhwysfawr ar raddfa eang i sicrhau bod pobl yn manteisio ar y budd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl i'w cael drwy gydol y pandemig presennol, ac yn fwy cyffredinol pan fyddwn ni'n symud allan o'r argyfwng presennol.

## Budd-daliadau a chynlluniau datganoledig

**79.** Mae angen i fudd-daliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rheoli fod yn fwy hygyrch nag erioed.

---

[52] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 14 Mai 2020, Cofnod y Trafodion [84]

[53] **Ymateb Llywodraeth Cymru i Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well**, Mai 2020

## Gostyngiad a gorfodaeth y dreth gyngor

**80.** Mae Cyngor ar Bopeth yn nodi mai'r dreth gyngor yw'r broblem ddyled fwyaf y mae'n rhoi cymorth amdani i bobl.[54] Mae ei waith ymchwil yn dangos nad yw llawer o bobl yn ymwybodol o gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor neu gynlluniau disgownt, a bod pobl sydd ar ei hôl hi gyda'u taliadau fel arfer yn methu talu, yn hytrach nag yn anfodlon talu.

**81.** Rydym yn gwybod bod rhai awdurdodau lleol wedi oedi camau gorfodi dros dro ar gyfer casglu'r dreth gyngor yn ystod y pandemig (er enghraifft, fe wnaeth Cyngor Gwynedd oedi camau gorfodi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin). Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym fod awdurdodau lleol yn ceisio dangos cymaint o gydymdeimlad â phosibl; a bod rhai yn mabwysiadu dull meddalach drwy ddefnyddio llythyron atgoffa. Dywedodd mai'r peth yw bod yn hyblyg, gan ychwanegu: "[what] we don't want to do is to be chasing people for funds they quite simply haven't got. Because if we put more people on the brink,.....it could actually cost us more funding."

**82.** Rydym yn cydnabod ei bod yn anodd i awdurdodau lleol daro'r cydbwysedd cywir mewn perthynas â dyled y dreth gyngor. Fodd bynnag, yn yr hinsawdd economaidd heriol, a chyda'r dreth gyngor yn broblem ddyled sylweddol, mae'n bwysig bod camau'n cael eu cymryd i leihau caledi gormodol ar aelwydydd. Gallai Llywodraeth Cymru atal problemau dyled rhag gwaethygu i'r tlotaf drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol oedi camau gorfodi y dreth gyngor am 6-12 mis wrth i'r cynllun ffyrlo gael ei ddirwyn i ben a bod y risg i incwm pobl ar ei uchaf.

**Recommendation 14.** Dylai Llywodraeth Cymru oedi camau gorfodi dyled y dreth gyngor am 6-12 mis. Dylai hyn ddod i rym cyn gynted â phosibl.

## Cronfa Cymorth Dewisol

**83.** Cymerodd Llywodraeth Cymru y cam a oedd i'w groesawu'n fawr o ddyblu ei Chronfa Cymorth Dewisol i £22 miliwn i helpu pobl sydd mewn caledi ariannol difrifol, gan gynnwys y rhai sy'n aros am eu taliad Credyd Cynhwysol cyntaf. Mae ceisiadau wedi cael eu trin â mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd, ac mae ystadegau'n dangos bod y galw wedi cynyddu'n sylweddol, gyda bron 40,000 o

[54] ELGC COV20 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor ar Bopeth Cymru

grantiau wedi'u dosbarthu rhwng 18 Mawrth a 9 Gorffennaf, sef cyfanswm o £2.3 miliwn.[55]

**84.** Rydym yn nodi y caiff ceisiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws i'r Gronfa Cymorth Dewisol rhwng 1 Mai a 31 Mawrth 2021 eu trin â mwy o hyblygrwydd a disgresiwn.[56] Rydym yn croesawu hyn. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen cyllid ychwanegol i gefnogi mwy o geisiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol.

**85.** Mae ymwybyddiaeth o'r Gronfa yn dal i fod yn isel, ac fel y nododd Oxfam Cymru:

> "if I was in financial crisis today, I would not put the phrase 'discretionary assistance fund' into Google. There is a real issue with the accessibility of the fund—not enough people know about it, not enough people are able to apply for it".[57]

**86.** Mae materion ymwybyddiaeth o'r Gronfa Cymorth Dewisol yn rhai hirdymor. Yn 2015, dywedodd y Pwyllgor sy'n ein rhagflaenu[58] fod ymwybyddiaeth o'r Gronfa yn isel, fel y gwnaeth gwerthusiad dilynol gan Lywodraeth Cymru o'i heffeithiolrwydd.[59] Cafodd materion ynghylch ymwybyddiaeth y cyhoedd eu codi hefyd gan ein hadroddiad yn 2019 ar ddarparu budd-daliadau.[60]

**87.** Mae tystiolaeth gan y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn tynnu sylw at y ffaith bod problemau gydag ymwybyddiaeth o'r Gronfa Cymorth Dewisol yn fwy difrifol i grwpiau a allai fod ei hangen fwyaf yn ystod y cyfnod hwn, er enghraifft pobl nad ydynt yn siarad Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf neu sy'n cael problemau yn deall a defnyddio'r system fudd-daliadau oherwydd anabledd.[61]

---

[55] Llywodraeth Cymru, **Data cryno am coronafeirws (COVID-19) a'r ymateb iddo: 13 Gorffennaf 2020**

[56] Gwefan Llywodraeth Cymru; y Gronfa Cymorth Dewisol [fel ar 28 Gorffennaf 2020]

[57] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 30 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [169]

[58] Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, **Tlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru** Mehefin 2015

[59] Llywodraeth Cymru **Gwerthusiad o'r Gronfa Cymorth Dewisol,** (2015)

[60] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well, Hydref 2019

[61] ELGC COV 17 Tystiolaeth ysgrifenedig EYST

**88.** Ar ôl pum mlynedd, mae’n bryd ail-feddwl y Gronfa Cymorth Dewisol: ei ail-frandio, gwneud y meini prawf cymhwysedd yn gliriach a'r broses gwneud cais yn haws, a'i hysbysebu i'r bobl sydd fwyaf tebygol o'i hangen.

**Recommendation 15.** Dylai Llywodraeth Cymru ail-frandio'r Gronfa Cymorth Dewisol a chynnal ymgyrch ymwybyddiaeth (ar wahân i'r ymgyrch i annog pobl i fanteisio arni), ar deledu a radio, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn print.

### Taliadau disgresiwn at gostau tai

**89.** Wrth i’r trefniant dros dro ar gyfer atal troi allan ddod i ben, ynghyd â'r cynllun ffyrlo a chynlluniau cymorth eraill, mae rhentwyr yng Nghymru (sy'n fwy tebygol o fod yn iau) yn debygol o wynebu anawsterau o ran talu rhent. Mae taliadau disgresiwn at gostau tai'n rhoi cymorth byrdymor i bobl sy'n cael Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol ac yn cael trafferth gyda chostau tai.

**90.** Llywodraeth y DU sy'n pennu’r rheolau cyffredinol, ond awdurdodau lleol sy’n eu gweinyddu gyda chyfeiriad sylweddol. Darperir cyllid gan Lywodraeth y DU, ond gall awdurdodau lleol ‘ychwanegu at’ daliadau yn eu hardaloedd hyd at swm penodol.

**91.** Yn ein hadroddiad ar fudd-daliadau yn 2019, ein hargymhelliad oedd y dylai Llywodraeth Cymru geisio datganoli taliadau disgresiwn at gostau tai yn llawn, ond gwrthodwyd hyn.[62]

**92.** O ystyried bod perchnogion tai wedi cael cymorth yn y pandemig drwy wyliau morgais, mae'n annheg nad yw rhentwyr wedi cael cymorth ychwanegol hefyd, o ystyried eu bod yn fwy tebygol o fod ar incwm is. Mae achos cryf i Lywodraeth Cymru ychwanegu at ddyraniadau taliadau disgresiwn at gostau tai i awdurdodau lleol, neu ddarparu cronfa ganolog i awdurdodau lleol ei defnyddio i helpu pobl ar yr incwm isaf i dalu eu rhent ac o bosibl osgoi dyled broblemus, neu ddigartrefedd hyd yn oed.

**Recommendation 16.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o arian i wneud taliadau disgresiwn at gostau tai i unrhyw un sy'n gymwys i helpu i atal achosion o droi allan.

[62] **Ymateb Llywodraeth Cymru i Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i’w cyflawni'n well**, Mai 2020

### Hygyrchedd

**93.** Mae budd-daliadau fel gostyngiad y dreth y cyngor, prydau ysgol am ddim, y Gronfa Cymorth Dewisol a thaliadau disgresiwn at gostau tai yn ffyrdd hanfodol o helpu i atal pobl rhag mynd i dlodi eithafol, y mae gan Lywodraeth Cymru rywfaint o reolaeth neu reolaeth lwyr drostynt. Thema barhaus yn y dystiolaeth a gyflwynwyd inni yn ein hadroddiad ar fudd-daliadau yn 2019 a'r ymchwiliad hwn yw'r diffyg ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau hyn a pha mor anodd yw cael mynediad atynt.

**94.** Dylai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i archwilio mecanweithiau ar gyfer caniatáu hawl awtomatig o un budd-dal i'r llall. Gallai hyn fod mor syml ag anfon llythyr at bobl sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol i ddarparu gwybodaeth am ostyngiad y dreth gyngor a budd-daliadau dewisol eraill. Neu gallai fod yn fwy soffistigedig, er enghraifft drwy gysylltu systemau Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau ag awdurdodau lleol i sicrhau bod gostyngiad y dreth gyngor yn cael ei ddarparu'n awtomatig heb fod angen gwneud cais arall.

**Recommendation 17.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer caniatáu hawl awtomatig i fudd-daliadau datganoledig fel gostyngiad y dreth gyngor.

## Gofalu am ofalwyr

**95.** Mae gofalwyr, â thâl ac yn ddi-dâl, wedi bod yn hanfodol i bawb yn ystod y pandemig. Mae gweithwyr iechyd, gofalwyr cymdeithasol, rhieni a gofalwyr di-dâl partneriaid, perthnasau a ffrindiau wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol i helpu Cymru i ymateb i'r pandemig.

### Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

**96.** Yn 2017, roedd bron tri chwarter o weithlu’r GIG yng Nghymru yn fenywod,[63] ac roedd 80 y cant o weithwyr gofal cartref yng Nghymru yn fenywod, gyda hanner ohonynt dros 50 oed.[64]

**97.** Mae’r rheini o ethnigrwydd Du, Indiaidd a Bangladeshaidd yng Nghymru yn llawer mwy tebygol o fod yn weithwyr allweddol, gyda gweithwyr BAME ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn y sectorau iechyd a gofal

[63] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol **Pwy sy'n rhedeg Cymru 2017**

[64] Chwarae Teg ac Oxfam Cymru) **Gwaith Boddhaol i Fenywod yng Nghymru: Astudiaeth Sectoraidd,** 2017

cymdeithasol na gweithwyr o ethnigrwydd gwyn Prydeinig.[65] Mae gwaith ymchwil yr Athro Ogbonna yn nodi bod dros draean o staff meddygol a deintyddol yng Nghymru yn dod o grwpiau BAME.[66]

**98.** Mae offeryn asesu risg y Grŵp Cynghori BAME i'w groesawu, ac fel y mae adroddiad yr Athro Ogbonna yn nodi, mae ei lwyddiant yn dibynnu ar ei ledaenu'n eang y tu hwnt i'r maes iechyd a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr ag ymrwymiadau i sicrhau na fydd pobl yn colli incwm oherwydd eu bod yn cael eu hadleoli.

**99.** Ym mis Ionawr 2020, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y byddai fforwm gwaith teg ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff, a hynny drwy ddull partneriaeth gymdeithasol.[67] Bydd hwn yn fforwm pwysig ar gyfer pennu ffyrdd ymarferol o wella cyflog ac amodau yn y sector, a dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd y flwyddyn.

**100.** Rydym yn croesawu **bonws o £500 gan Lywodraeth Cymru i'r gweithlu gofal cymdeithasol**, ond bron ddau fis ar ôl y cyhoeddiad, nid yw wedi cael ei dalu o hyd oherwydd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch trethiant – mae'n rhaid datrys hyn ar unwaith. Yn unol ag ysbryd y taliad, a diolchgarwch y cyhoedd am y gwaith hwn, dylai Llywodraeth y DU hepgor trethiant ar y taliad hwn. Hefyd, mae'n rhaid bod blaenoriaethu a buddsoddi hirdymor yn y sector yn dilyn y cynllun bonws.

**Recommendation 18.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym o effeithiolrwydd offeryn asesu risg y Grŵp Cynghori BAME, a sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno i bob sector, ond ei dargedu at y rhai sydd fwyaf mewn perygl.

**Recommendation 19.** Dylai Llywodraeth Cymru sbarduno gwaith y fforwm gwaith teg ar gyfer gofal cymdeithasol gyda golwg glir ar wella cyflog ac amodau gwaith yn y sector. Dylid nodi enillion cyflym, fel talu gweithwyr gofal cartref am yr holl amser a weithiwyd, gan gynnwys amser teithio; gwella

---

[65] Dadansoddiad Cyllidol Cymru (2020**) COVID-19 ac economi Cymru: sectorau dan glo a gweithwyr allweddol**

[66] **Grŵp Cynghori BAME Covid-19 y Prif Weinidog Adroddiad C**adeirydd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol: Yr Athro Emmanuel Ogbonna, Mehefin 2020

[67]Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 9 Ionawr 2020, Cofnod y Trafodion [78]

cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ffurfiol; a sicrhau bod gweithwyr cartrefi gofal a gweithwyr gofal cartref yn cael eu trin yn gyfartal.

**Recommendation 20.** Dylai Llywodraeth Cymru ddadlau’r achos i Lywodraeth y DU hepgor trethiant ar y bonws o £500 i weithwyr gofal cymdeithasol.

## Gofal plant

**101.** Mae cau ysgolion a gofal plant, ochr yn ochr â'r angen i ofalu am berthnasau hŷn sy'n gwarchod, yn debygol o fod wedi cael effaith anghymesur ar fenywod. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod wedi effeithio ar rieni sengl, y mae 90 y cant ohonynt yn fenywod, ac roedd 44 y cant o rieni sengl eisoes yn byw mewn tlodi cyn y pandemig. Mae **gwaith ymchwil** gan Gofalwyr Cymru yn nodi bod 77 y cant o ofalwyr di-dâl yn gorfod gwario mwy o arian yn ystod y pandemig.

**102.** Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi canfod bod rhieni bron ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu rhoi mewn trefniant ffyrlo na’r rhai sydd heb blant.[68] Canfu hefyd, yn ystod wythnosau cychwynnol y cyfnod cloi, fod menywod â phlant o dan 18 oed yn gwneud mwy na thair awr o ofal plant y dydd o’i gymharu â dwy awr gan ddynion, a bod y bwlch ar ei fwyaf mewn cartrefi â phlant o dan bump oed.[69] Hefyd, fe wnaeth menywod dreulio mwy o amser yn gwneud gwaith di-dâl na dynion, ac fe wnaeth dynion dreulio mwy o amser yn gwneud gwaith â thâl na menywod.[70]

**103.** Mae gwaith ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol hefyd yn dangos bod mamau unwaith a hanner yn fwy tebygol na thadau o fod wedi rhoi'r gorau i’w swydd neu golli swydd ers dechrau'r cyfnod clo.[71]

**104.** Canfu gwaith ymchwil Canolfan Llywodraethiant Cymru fod gweithwyr allweddol, y mae 68 y cant ohonynt yn fenywod, yn wynebu heriau sylweddol o ran gofal plant – mae gan hanner ohonynt blant o oedran ysgol, tra eu bod hefyd

[68] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llesiant personol ac economaidd ym Mhrydain Fawr: Mehefin 2020

[69] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhianta yn y cyfnod clo: Coronafeirws a'r effeithiau ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

[70] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhianta yn y cyfnod clo: Coronafeirws a'r effeithiau ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

[71] Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Sut mae mamau a thadau’n cydbwyso gwaith a theulu yn y cyfnod clo? Mai 2020

yn fwy tebygol na gweithwyr nad ydynt yn rhai allweddol o fod â phlant iau o dan bedair oed.[72]

**105.** Mae Chwarae Teg yn argymell, yn achos y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu yn y gweithlu, y dylai cyflogwyr fod yn hyblyg wrth weithio gyda gweithwyr unigol i daro cydbwysedd sy'n caniatáu iddynt weithio o amgylch eu cyfrifoldebau gofalu gartref; gall hyn olygu hwyluso gweithio y tu allan i oriau a phatrymau traddodiadol. Fodd bynnag, maent yn rhybuddio y dylai hyn fynd ochr yn ochr â chymell rhannu cyfrifoldebau gofal.[73]

**106.** Yn 2018, fe wnaethom ni nifer o argymhellion i gynyddu cydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn y gweithle, gan gynnwys ymrwymiad i hysbysebu holl swyddi’r sector cyhoeddus fel rhai ‘hyblyg yn ddiofyn’, gwella gwasanaethau cynghori ar gyfer hawliau cyflogaeth, a chryfhau’r rhwymedigaethau ar fusnesau a sefydliadau sy’n derbyn cyllid cyhoeddus i ddileu gwahaniaethu.[74]

**Recommendation 21.** Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i annog pob awdurdod cyhoeddus i hysbysebu pob swydd fel swydd hyblyg yn ddiofyn.

**Recommendation 22.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am sut i weithredu gweithio hyblyg teg ac effeithiol i bob cyflogwr sy'n cael cefnogaeth gan y Llywodraeth a gwneud cefnogaeth yn amodol ar gyflogwyr yn gweithredu'r dulliau hyn.

## Gofalwyr di-dâl

**107.** **Amcangyfrifir** bod 370,230 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, gan ddarparu gofal gwerth £8.1 biliwn y flwyddyn. Canfu **arolwg diweddar** fod 79 y cant o’r gofalwyr di-dâl hyn yn darparu mwy o ofal i’w hanwyliaid yn ystod achosion y coronafeirws, a bod mwy na thri chwarter o ofalwyr di-dâl yn gorfod gwario mwy o arian yn ystod y pandemig.

**108.** Er mai'r brif ffordd o gefnogi gofalwyr di-dâl yn ariannol yw trwy gynyddu’r Lwfans Gofalwr, dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o wneud y mwyaf o'u hincwm drwy ddulliau eraill. Er enghraifft, er bod hawddfreintiau gofal cymdeithasol ar waith, ac nad yw rhai teuluoedd o bosibl yn cael y pecyn gofal

[72] Dadansoddiad Cyllidol Cymru (2020**) COVID-19 ac economi Cymru: sectorau dan glo a gweithwyr allweddol**

[73] Chwarae Teg, Menywod a Covid-19, Mawrth 2020

[74] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (2018) **Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru**

llawn y mae ganddynt hawl iddo, gellid cymhwyso gostyngiadau'r dreth gyngor i ofalwyr sy'n gofalu am eu priod, partner neu blentyn (sydd ar hyn o bryd **wedi'u heithrio** o ostyngiadau).

**Recommendation 23.** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o sicrhau cymaint o incwm â phosibl i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys drwy ostyngiadau treth gyngor.

### Cyfarpar diogelu personol (PPE)

**109.** Codwyd materion ynghylch dyluniad ac addasrwydd PPE mewn tystiolaeth i ymchwiliad y pwyllgor hwn, ac mae adroddiad cyntaf y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y pandemig wedi mynd i'r afael â hyn.[75]

**110.** Mae'r pwyllgor hwnnw'n nodi bod PPE yn effeithiol dim ond pan fydd yn cael ei wisgo'n iawn, ac er gwaethaf y nifer uchel o fenywod yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, mae masgiau wedi'u cynllunio i raddau helaeth ar gyfer dynion. Mae masgiau anrhyloyw hefyd yn peri problemau i gleifion, gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd sy'n fyddar neu'n dioddef o golli clyw.

**111.** Rydym yn cefnogi argymhellid y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon bod Llywodraeth Cymru yn "adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw".

**Recommendation 24.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cyfarpar diogelu personol y mae wedi'i gasglu ynghyd i sicrhau ei fod yn parhau i fod o ansawdd digonol a'i fod yn addas at y diben, gan gynnwys bod y dyluniad a'r ffit yn briodol ar gyfer pawb sy'n ei wisgo ac yn addas ar gyfer staff, cleifion neu ofalwyr sy'n fyddar neu â nam ar eu clyw [argymhelliad gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon].

## Mae angen rhoi blaenoriaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd

**112.** Yn 'A yw Cymru'n Decach 2018', dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

[75] Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon **Ymchwiliad i effaith Covid-19: Adroddiad 1, Gorffennaf 2020**

> "mae pobl anabl, y rhai ag anableddau dysgu, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl drawsryweddol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phobl ddigartref, yn wynebu'r rhwystrau mwyaf sylweddol i gael mynediad at ofal iechyd ac mae ganddynt ganlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwaeth o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol."[76]

**113.** Unwaith eto, mae'r coronafeirws wedi datgelu rhai o'r anghydraddoldebau difrifol hyn. Mae dynion, pobl hŷn, pobl o grwpiau BAME, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig mewn mwy o berygl o salwch difrifol a marwolaeth o ganlyniad i'r feirws.

**114.** Mae'r rhesymau y tu ôl i'r cyfraddau marwolaeth anghymesur yn gymhleth, ond maent yn cynnwys: gweithio mewn swyddi cyswllt uwch (fel gofal iechyd) neu swyddi risg uwch (fel gyrwyr tacsi), byw mewn llety gorlawn, cyflyrau presennol fel clefyd yr ysgyfaint a gordewdra, ymddygiadau fel ysmygu, a gwahaniaethu.

**115.** Roedd adroddiad yr Athro Ogbonna yn glir mai un o'r ffactorau yn effaith anghyfartal y pandemig oedd nad oedd negeseuon iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u lledaenu'n effeithiol i gymunedau BAME.[77] Rydym yn cefnogi'r argymhellion a wnaed yn ei adroddiad yn galw am strategaeth gyfathrebu aml-sianel glir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a wneir mewn partneriaeth ac sy'n targedu cymunedau BAME.

**116.** Credwn fod angen gwaith pellach hefyd i wella ac ehangu ar negeseuon iechyd y cyhoedd i grwpiau eraill sy'n teimlo effeithiau iechyd y feirws yn anghymesur.

**117.** Yn ogystal â mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd uniongyrchol sy'n deillio o'r feirws ei hun, mae angen mynd i'r afael â'r effeithiau anuniongyrchol. Mae llawer o wasanaethau a thriniaethau wedi'u canslo a'u gohirio, a fydd yn cael effaith sylweddol ar bobl anabl.[78]

**118.** Mae pryderon sylweddol hefyd ynghylch y risg o ail bandemig o faterion iechyd meddwl.[79] Gallai hyn gael effaith sylweddol ar ddynion canol oed o

---

[76] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A yw Cymru'n Decach 2018?

[77] **Grŵp Cynghori BAME Covid-19 y Prif Weinidog Adroddiad C**adeirydd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol: Yr Athro Emmanuel Ogbonna, Mehefin 2020

[78] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

[79] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 30 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [284]

grwpiau incwm is, sef y rhai sydd fwyaf mewn perygl o hunanladdiad a'r lleiaf tebygol o droi at gymorth. Mae grwpiau eraill, fel pobl ifanc a phobl LHDT hefyd yn wynebu perygl uwch.[80] Rydym yn pryderu y gallai fod storm berffaith o gynnydd mewn galw am gymorth, ynghyd â llai o argaeledd o ran gwasanaethau amserol a hygyrch. Mae hyn cyn i ni ystyried effaith bosibl unrhyw ddirwasgiad sydd ar ddod, a'r risgiau ychwanegol y gallai hyn eu hachosi i iechyd meddwl.

**119.** Mae'r materion hyn yn ein harwain yn ôl at bwysigrwydd ein hargymhellion blaenorol ar asesiadau effaith, data ac ymgysylltu ystyrlon â dinasyddion i helpu i lywio penderfyniadau polisi. Mae'r rhain i gyd yn faterion y mae angen eu hystyried yn ofalus fel nad yw penderfyniadau yng nghyfnod yr adferiad neu unrhyw don bellach o'r pandemig yn golygu bod perygl o ehangu'r anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli.

**Recommendation 25.** Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar y gwaith o weithredu'r argymhellion ynghylch cyfathrebu iechyd cyhoeddus yn adroddiad y Grŵp Cynghori BAME i sicrhau bod negeseuon wedi'u targedu yn cael eu datblygu ar gyfer grwpiau eraill y mae'r coronafeirws wedi effeithio arnynt yn anghymesur, fel pobl hŷn, y rheini o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, pobl anabl a'r rheini â chyflyrau iechyd hirdymor.

**Recommendation 26.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu hygyrchedd ac argaeledd gwasanaethau cymorth iechyd meddwl, yn enwedig i ddynion o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

## Mae'n rhaid mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol

**120.** Yn gyffredinol, mae **cyrhaeddiad addysgol is** ymysg bechgyn, plant o deuluoedd incwm isel, a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig (AAA) na'u cyfoedion. Mae cyrhaeddiad plant Sipsiwn/Roma/Teithwyr a phlant Du hefyd yn fwy tebygol o fod yn is. Mae cau ysgolion yn debygol o ehangu'r anghydraddoldebau hyn ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau wedi'u targedu i helpu'r rhai sydd wedi profi'r golled fwyaf difrifol o ran dysgu.

### Allgau digidol

**121.** Cafodd plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel heb liniaduron na thabledi, neu'r rhai sy'n rhannu dyfeisiau â rhieni sy'n gweithio gartref a brodyr a chwiorydd, eu rhoi dan anfantais fawr pan symudodd ysgolion i ddysgu ar-lein.

[80] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**122.** Rydym yn croesawu'r £3 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer disgyblion heb fynediad at liniaduron a thabledi. Ond roedd tystiolaeth i'n hymchwiliad yn awgrymu nad oedd y cyllid hwn yn cyrraedd plant sydd angen dyfeisiau yn ddigon cyflym.[81] Fe wnaeth ymatebwyr nodi hefyd nad oedd llawer o adnoddau addysgu ar-lein yn gwbl hygyrch i blant anabl.[82]

**123.** Mae'n hanfodol bod y cyllid hwn yn cyrraedd plant sydd ei angen, yn enwedig os bydd yn rhaid dychwelyd at ddysgu cyfunol yn sgil cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gymryd camau i sicrhau bod deunyddiau'n gwbl hygyrch.

**Recommendation 27.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data am y cyllid cynhwysiant digidol ysgolion o £3 miliwn, gan nodi faint o ddisgyblion sydd wedi elwa ohono, a dweud a yw wedi nodi unrhyw fylchau penodol yn y ddarpariaeth na lwyddodd y gronfa i fynd i'r afael â hwy yn ddigonol.

## Graddau 'wedi'u cyfrifo'

**124.** Cododd llawer o ymatebwyr i'n hymchwil bryderon ynghylch defnyddio graddau wedi'u cyfrifo yn lle asesiadau haf, gan nodi y gallent ddyfnhau'r anghydraddoldeb presennol ym maes addysg a pheryglu dyfodol pobl ifanc ddifreintiedig os na chânt eu gweithredu'n gywir.[83]

**125.** Fe wnaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol dynnu sylw at dystiolaeth y gallai fod patrymau o ragfarn ymwybodol neu anymwybodol pan fydd athrawon yn cyfrifo graddau, gyda goblygiadau penodol i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig, gan gynnwys disgyblion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; a phlant ag AAA/ADY.[84]

**126.** Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Cymwysterau Cymru o ganlyniad i'r pryderon hyn, fel canllawiau i athrawon ar ragfarn anymwybodol, a darparu gwybodaeth am rwymedigaethau dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus i benaethiaid canolfannau arholi.

**127.** Nodwn ganfyddiadau Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin ynghylch defnyddio graddau wedi'u cyfrifo yn Lloegr. Cododd bryderon y gallai'r broses apelio fod yn

[81] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 16 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [220]

[82] ELGC COV16 Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru

[83] ELGC COV 17 Tystiolaeth ysgrifenedig EYST

[84] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

hygyrch i'r “well-heeled and sharp-elbowed[85]” ac y byddai’r cyfrifoldeb ar ddisgyblion i ddarparu tystiolaeth o ragfarn neu wahaniaethu er mwyn codi cwyn am eu graddau.

**128.** Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi gwybodaeth glir am y broses apelio ar gyfer graddau wedi’u cyfrifo, ond nid yw'n dweud yn benodol y caiff disgyblion apelio ar sail amheuaeth o wahaniaethu neu ragfarn. Rydym yn cymeradwyo'r argymhellion a ganlyn gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**Recommendation 28.** Dylai Cymwysterau Cymru gynnal gwerthusiad o'r trefniadau eithriadol ar gyfer dyfarnu graddau ar ôl i'r broses ddod i ben. Os yw'r gwerthusiad yn datgelu gwahaniaethau uwch na'r cyfartaledd ymysg disgyblion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol, neu sydd o gefndiroedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, dylai Cymwysterau Cymru ymchwilio i'r rhain.

**Recommendation 29.** Dylai Cymwysterau Cymru gyhoeddi gwybodaeth mewn fformatau hawdd eu deall a hygyrch am y llwybrau sydd ar gael i ddisgyblion herio'r graddau a ddyfernir iddynt drwy’r trefniadau eithriadol eleni, gan gynnwys ar sail amheuaeth o wahaniaethu anghyfreithlon.

## Gwersi dal i fyny

**129.** Canfu ymchwil a wnaed fis ers dechrau’r cyfnod clo fod 11 y cant o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim wedi treulio mwy na phedair awr ar waith ysgol, o’i gymharu ag 19 y cant ymhlith y rhai nad ydynt yn gymwys, a bod 20 y cant o ferched yn neilltuo pedair awr neu fwy i waith ysgol yn ystod y cyfnod clo, o'i gymharu ag 14 y cant o fechgyn. Fe wnaeth tystiolaeth a ddarparwyd i'r pwyllgor hwn dynnu sylw at yr anawsterau penodol y mae rhieni plant ag anableddau wedi'u hwynebu wrth eu haddysgu gartref. Canfu ymchwil yn ddiweddarach yn y cyfnod clo fod plant o deuluoedd mwy cefnog yn Lloegr yn treulio 30 y cant yn fwy o amser ar ddysgu gartref na phlant o deuluoedd tlotach.

**130.** Rydym hefyd yn ymwybodol bod nifer y plant agored i niwed sy'n mynychu lleoliadau addysgol yn awgrymu bod yna nifer fawr nad ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.[86] Pan gaeodd ysgolion ar ddechrau'r pandemig, nododd Llywodraeth Cymru y dylai ysgolion barhau i gynnig darpariaeth i weithwyr allweddol ac i blant sy'n agored i niwed. Roedd y diffiniad o blant agored i niwed

[85] Pwyllgor Addysg Tŷ'r Cyffredin, Covid-19: canslo arholiadau a graddau 'wedi'u cyfrifo', 11 Gorffennaf 2020

[86] **ELGC COV 30 Tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

yn cynnwys nifer o wahanol grwpiau, gan gynnwys y rhai ag anghenion diogelu ac a gefnogir gan ofal cymdeithasol, plant anabl a’r rheini â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.[87] Mae'r Aelodau'n ymwybodol o achosion unigol lle gwrthodwyd darpariaeth i blant a oedd yn diwallu’r diffiniad hwn. Yn y dyfodol, dylai unrhyw blentyn sy'n diwallu'r diffiniad hwn gael y cymorth angenrheidiol i sicrhau nad yw'n cwympo hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi.

**131.** Rydym yn croesawu'r £29 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer recriwtio 900 o staff addysgu i ddarparu cymorth i ddysgwyr y mae cau ysgolion wedi effeithio fwyaf arnynt, gan roi blaenoriaeth i flynyddoedd 11, 12, a 13 mewn ysgolion uwchradd, a 'dysgwyr agored i niwed'.[88]

**132.** Nid yw'n glir pwy yw 'dysgwyr agored i niwed' yng nghyd-destun yr arian ychwanegol hwn, a sut y cânt eu nodi fel rhai i’w blaenoriaethu ar gyfer dosbarthiadau dal i fyny. Rydym yn cefnogi galwad EYST i Lywodraeth Cymru leihau bylchau cyrhaeddiad rhwng dysgwyr drwy hyfforddiant unigol neu mewn grŵp bach pan fydd ysgolion yn dychwelyd.[89]

**Recommendation 30.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cronfa ar gyfer dosbarthiadau 'dal i fyny' ar gyfer plant y mae eu haddysg yn fwyaf tebygol o fod ar ei hôl hi yn ystod y cyfnod clo.

## Rhaid amddiffyn pobl sydd mewn perygl o drais a cham-drin

**133.** Mae'r pandemig wedi cynyddu'r risg o gam-drin a thrais yn y cartref ac yn gyhoeddus. Mae’n rhaid inni sicrhau bod gwasanaethau i atal trais a cham-drin ac amddiffyn pobl sy'n dioddef yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

### Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

**134.** Mae'n ymddangos bod y DU yn dilyn **tuedd fyd-eang** o gynnydd mewn cam-drin domestig yn ystod y cyfnod clo. **Amcangyfrifir** y cafodd o leiaf 16 o fenywod a phlant eu lladd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yn y DU rhwng 23 Mawrth a 12 Ebrill yn unig. Mae galwadau i linellau cymorth cam-drin domestig wedi

[87] Llywodraeth Cymru,

[88] **Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref**, Gorffennaf 2020 (Atodiad A, t20)

[89] ELGC COV 17 Tystiolaeth ysgrifenedig EYST

cynyddu'n sylweddol, gyda rhai **adroddiadau** o gynnydd o 700 y cant mewn un diwrnod.

**135.** Dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru wrthym eu bod yn rhagweld y galw uchaf am wasanaethau wrth i'r cyfnod clo gael ei lacio a bod goroeswyr yn cael mwy o gyfleoedd i geisio cymorth. Fe wnaethant nodi hefyd bod o leiaf 90 y cant o wasanaethau wedi mynd i gostau ychwanegol oherwydd y pandemig. Ar ôl dryswch cychwynnol ynghylch pa gyllid ychwanegol yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu i'r sector, cyhoeddodd £1.5 miliwn ychwanegol ar 30 Mehefin ar gyfer gwasanaethau.[90] Dyrannodd Llywodraeth yr Alban arian ychwanegol i wasanaethau cam-drin domestig ar 31 Mawrth.[91]

**136.** Gwyddom fod problemau'n parhau gyda chyllid ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

**137.** Yn 2016, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac fe wnaethom ni ofyn i'r Llywodraeth bennu amserlen ar gyfer hyn.[92]

**138.** Yn 2017, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor eto fod datblygu model cyllido cynaliadwy yn flaenoriaeth i gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol, a fydd yn cynnwys adolygiad o gyllid presennol Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at waith ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.[93]

**139.** Yn 2019, fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru ganfod:

- nad yw cymhlethdodau o ran cyllid trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn caniatáu i gyrff cyhoeddus asesu gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau a thrawsnewid gwasanaethau, a

[90] Llywodraeth Cymru, **Bydd cyllid newydd o £1.5m gan Lywodraeth Cymru yn helpu dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig i Fyw Heb Ofn**, 30 Mehefin

[91] Llywodraeth yr Alban, **Cefnogaeth i ddioddefwyr trais domestig yn ystod yr achosion o COVID-19**, 31 Mawrth

[92] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, A yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gweithio? Rhagfyr 2016

[93] Llywodraeth Cymru, Ymateb i A yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gweithio? Chwefror 2017

- bod cyllido gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gyffredinol yn digwydd mewn ffordd dameidiog, cymhleth a thymor byr.[94]

**140.** Ym mis Chwefror 2020, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod gwaith y grŵp cyllido cynaliadwy wedi bod yn mynd rhagddo ers 18 mis ac nad oedd eto wedi dod o hyd i ffordd o ddarparu model cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector.[95]

**141.** Yn ei thystiolaeth ar 14 Mai, nododd y Dirprwy Weinidog fod gwaith y grŵp yn mynd rhagddo drwy'r pandemig, a dywedodd ei fod yn paratoi cynigion ynghylch yr hyn y bydd ei angen, yn enwedig wrth ddod allan o'r cyfnod clo, ac wrth weld y bydd mwy fyth o angen.[96]

**142.** Yn ei llythyr atom ar 30 Mehefin, nododd y Dirprwy Weinidog, cyn cytuno ar fodel, bod "angen cynnal ymarfer mapio cyllid llawn ar gyfer darpariaeth VAWDASV yng Nghymru", a fyddai'n cael ei gwblhau erbyn canol mis Gorffennaf, a "bydd dyddiad cwblhau newydd yn cael ei bennu a'i gytuno" yn y cyfarfod nesaf.[97]

**143.** Bedair blynedd ers ymrwymiad cyntaf Llywodraeth Cymru i fodel cyllido cynaliadwy, mae'n hanfodol bod y mater hwn yn cael ei ddatrys. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio cyfredol a dylid cyhoeddi gwybodaeth am y dyddiad cau newydd ar gyfer cwblhau ar unwaith.

## Cam-drin pobl hŷn

**144.** Cawsom dystiolaeth gan Hourglass Cymru (Elder Abuse Cymru gynt) ynghylch cynnydd yn nifer y galwadau i'w llinell gymorth, a phryderon am bobl hŷn sy'n gwarchod ac yn dibynnu ar bartneriaid neu berthnasau sy'n eu cam-drin yn ystod y cyfnod hwn.[98]

**145.** Mae'r **ystadegau swyddogol** ynghylch cam-drin domestig dim ond casglu data ar bobl hyd at 74 oed. Mae Age UK yn credu bod hyn yn helpu i guddio cam-

[94] Swyddfa Archwilio Cymru, Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith, Tachwedd 2019

[95] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 12 Chwefror 2020, Cofnod y Trafodion [111]

[96] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 14 Mai 2020, Cofnod y Trafodion [53]

[97] Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 30 Mehefin 2020

[98] ELGC COV15 Tystiolaeth ysgrifenedig Hourglass Cymru

drin domestig yn hwyrach mewn bywyd, gan rwystro ymdrechion i gael cymorth i bobl hŷn sydd wir ei angen.[99]

## Troseddau casineb

**146.** Er bod adroddiadau'r heddlu'n nodi bod troseddau casineb wedi lleihau yn ystod y cyfnod clo, mae ein tystiolaeth yn tynnu sylw at achosion sy'n peri pryder o droseddau casineb hiliol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r pandemig, yn enwedig ar-lein. Dywedodd Cyngor Hil Cymru wrthym am ymosodiadau ar y gymuned Tsieineaidd yn benodol[100] , a dywedodd EYST wrthym am ddifrio Islamoffobig o amgylch Ramadan.[101]

**147.** Mae hon yn ffenomen ryngwladol, ac mae'r Cenhedloedd Unedig wedi nodi'r ffaith bod iaith casineb ar-lein yn ystod y pandemig wedi cynnwys senoffobia, teimlad gwrth-Fwslimaidd, theorïau cynllwynio gwrth-Semitaidd, a cham-drin wedi'i anelu at bobl hŷn.

**148.** Mae'r newid at ddifrïo ar-lein yn ei gwneud hi'n anodd i gydgysylltwyr cydlyniant cymunedol yng Nghymru ymateb yn effeithiol. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymell bod angen cyfeiriad strategol cliriach ar y cydgysylltwyr hyn at y dyfodol.

**149.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ystod o fuddsoddiadau a mentrau yn 2019 i fynd i'r afael â throseddau casineb a hiliaeth yng Nghymru, mae angen diweddaru'r cyfeiriad strategol yn sgil Brexit a'r pandemig.

**150.** Rydym ni ac eraill wedi argymell droeon y dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru ei **chynllun cyflawni ar gyfer cydlyniant cymunedol**, ac mae wedi ymrwymo i wneud hyn ddwywaith o'r blaen (yn 2018[102] ac yn 2017[103]). Ym mis Rhagfyr 2019 dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod y Llywodraeth yn "parhau i ystyried y dulliau mwyaf effeithiol a phriodol o ddiweddaru ein cynllun cydlyniant cymunedol ar gyfer y blynyddoedd nesaf."[104]

[99] Age UK, Datganiad i'r cyfryngau, 27 Ebrill 2020

[100] ELGC COV04 Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Hil Cymru

[101] ELGC COV17 Tystiolaeth ysgrifenedig EYST

[102] Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 16 Mai 2018

[103] Llywodraeth Cymru, Ymateb ysgrifenedig i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, "Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun", Mai 2017

[104] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 20 Rhagfyr 2019

**151.** Yn dilyn **Fframwaith Troseddau Casineb ar gyfer Gweithredu** Llywodraeth Cymru yn 2014, cafwyd **cynllun cyflawni** yn 2016. Cyhoeddwyd yr **adroddiad cynnydd** yn 2017, ond nid yw'r naill na'r llall wedi'u diweddaru yn y blynyddoedd diwethaf.

**Recommendation 31.** Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar fodel cyllido cynaliadwy ar gyfer y sector VAWDASV cyn diwedd tymor y Senedd hon. Cyn hyn, dylid cyhoeddi canlyniadau'r ymarfer mapio.

**Recommendation 32.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddod o hyd i ffyrdd priodol o gasglu data cam-drin domestig ar gyfer pobl hŷn.

**Recommendation 33.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad tymor byr i'r cynllun cyflawni cydlyniant cymunedol a'r fframwaith troseddau casineb ar gyfer gweithredu am weddill tymor y Senedd.

## Mae angen gwella hygyrchedd

**152.** Mae'r pandemig wedi gosod heriau cymhleth i bobl anabl. Ni ddylai'r newidiadau a wneir i'n hamgylchedd a'n bywydau arwain at lai o annibyniaeth i bobl, ac mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod barn pobl anabl yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am y 'normal newydd'.

**153.** Mae cadw pellter cymdeithasol 'bron yn amhosibl' i bobl sydd wedi colli eu golwg, sy'n golygu bod llawer o bobl a oedd gynt yn annibynnol yn dibynnu ar eraill i fynd o gwmpas. Cawsom dystiolaeth fod pobl yn ofni mynd allan rhag iddynt dresmasu ar ofod personol pobl, ac nid yw cŵn tywys wedi'u hyfforddi i ddeall sut mae cadw pellter cymdeithasol.[105] Mae hyn yn arwain at unigedd ac iselder.

> "There have been incidences of passers-by challenging or shouting at blind and partially sighted people who haven't been able to keep their distance. Such unsettling and intimidating experiences have a lasting detrimental impact."[106]

[105] ELGC COV19 Tystiolaeth ysgrifenedig RNIB

[106] ELGC COV19 Tystiolaeth ysgrifenedig RNIB

**154.** Awgrymodd yr RNIB y dylid cynnal ymgyrch cyhoeddus ar gadw pellter cymdeithasol i annog pobl i ddeall nad yw pobl â gwahanol anghenion bob amser yn gallu cadw pellter cymdeithasol am wahanol resymau.[107]

**155.** Dywedodd sefydliadau wrthym fod pobl ag anableddau corfforol a dysgu nad ydynt yn y grŵp gwarchod wedi cael trafferth cael slotiau dosbarthu ar-lein.[108] Wrth i archfarchnadoedd gynyddu capasiti, ynghyd â llacio cyfyngiadau'r cyfnod clo, mae mwy o slotiau dosbarthu bellach ar gael. Ond mae llawer o'r bobl hyn yn methu â siopa drostynt eu hunain yn gorfforol oherwydd newidiadau i drefn siopau a threfniadau cadw pellter cymdeithasol.

**156.** Mae'r RNIB wedi codi'r mater hwn droeon gyda Llywodraeth Cymru, ond nid oes ateb wedi'i ganfod hyd yn hyn. Sicrhaodd Llywodraeth y DU slotiau siopa ar-lein gan nifer o archfarchnadoedd mawr yn Lloegr i bobl sydd wedi colli eu hannibyniaeth yn sgil y cyfnod clo, gan gynnwys y rheini sydd wedi colli eu golwg. Mae'r cynllun wedi'i anelu'n arbennig at y rheini sydd heb ffrindiau na theulu gerllaw sy'n gallu siopa drostynt yn hawdd.[109] Rydym yn dal i gredu y dylid cyflwyno cynllun o'r fath yng Nghymru, pe bai cyfyngiadau symud pellach neu gynnydd annisgwyl yn y galw am siopa ar-lein.

**157.** Fe wnaeth ymatebwyr i'n hymchwiliad dynnu sylw at anawsterau penodol gydag amgylcheddau ffisegol newydd fel sgriniau Perspex sy'n camystumio symudiadau wyneb a masgiau anrhyloyw sy'n gwneud cyfathrebu'n anodd i bobl sydd wedi colli eu golwg a cholli eu clyw.[110]

**158.** Mae angen cyflwyno newidiadau i fannau cyhoeddus a strydoedd yn gyflym er mwyn sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael eu hystyried, drwy baentio cyrbau wrth ledu palmentydd, a thrwy gyferbynnu lliwiau a gosod marciau cyffyrddol, er enghraifft. Gallai pobl â gofynion symudedd golli annibyniaeth hefyd os nad yw strydoedd newydd i gerddwyr yn cynnwys parcio hygyrch gerllaw. Dywedodd RNIB Cymru: "All public authorities have a duty under the Equality Act 2010 to ensure they meet the needs of disabled people, and actively involve

---

[107] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 30 Mehefin 2020, Cofnod y Trafodion [94]

[108] ELGC COV19 Tystiolaeth ysgrifenedig RNIB ; a ELGC COV25 Tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol

[109] RNIB, **Priority supermarket deliveries announced for blind shoppers amid social distancing concerns**, Mehefin 2020

[110] ELGC COV16 Tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol Cymru

disabled people in the design and delivery of their services such as the provision or improvement of pedestrian routes and cycle routes".[111]

**159.** Mae cau toiledau cyhoeddus hygyrch hefyd wedi cael effaith sylweddol ar allu pobl anabl i fyw eu bywydau'n annibynnol.

**160.** Mae hefyd yn hanfodol bod pobl anabl yn gallu cael canllawiau a gwybodaeth. Rydym yn croesawu cyflwyno diweddariadau disgrifiad clywedol, deunydd hawdd ei ddarllen ac iaith arwyddion Prydain, ond rydym yn deall mai dim ond ar anogaeth rhanddeiliaid y cyflwynwyd y rhain, sy'n dangos nad yw gwybodaeth hygyrch yn cael ei hystyried fel mater o drefn. Mae gan bobl hawl i gael gwybodaeth i'w helpu i ddeall deddfwriaeth a chanllawiau sy'n newid yn gyflym, yn enwedig cyngor ar iechyd y cyhoedd.

**161.** Dywedwyd wrthym fod pobl ag anableddau dysgu sy'n byw'n annibynnol yn arbennig wedi cael trafferth yn deall y rheolau newydd, gan roi eu hunain mewn perygl o gael eu herlyn.[112] Ni chafodd y wybodaeth achub bywyd yn y llythyrau gwarchod ei darparu mewn fformatau hygyrch chwaith.

**162.** Rydym yn cytuno ag ymatebwyr i'n hymchwiliad y dylai Llywodraeth Cymru greu 'arweinydd hygyrchedd' tebyg i'r hyn sydd gan Lywodraeth y DU[113] i oruchwylio'r gwaith o lunio gwybodaeth hanfodol mewn fformatau hygyrch.

**Recommendation 34.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch cadw pellter cymdeithasol i bwysleisio'r gwahanol heriau y mae'r 'normal newydd' yn eu gosod i wahanol bobl

**Recommendation 35.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cyflym i fusnesau sy'n ailagor ynghylch hygyrchedd ffisegol a chyfathrebu.

**Recommendation 36.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun dosbarthu nwyddau â blaenoriaeth ar gyfer pobl anabl nad ydynt yn gwarchod (tebyg i gynllun DEFRA/RNIB yn Lloegr).

**Recommendation 37.** Dylai Llywodraeth Cymru benodi arweinydd hygyrchedd o fewn Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gwaith o lunio'r holl wybodaeth allweddol am iechyd y cyhoedd a gwybodaeth arall mewn fformatau hygyrch,

[111] ELGC COV19 Tystiolaeth ysgrifenedig RNIB

[112] ELGC COV31 Tystiolaeth ysgrifenedig y Consortiwm ar Anableddau Dysgu

[113] Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, **We're hiring a Head of Accessibility**, Chwefror 2020

## Ni ddylai ymfudwyr ddisgyn rhwng y bylchau mewn cymdeithas

**163.** Mae ymfudwyr wedi chwarae rhan bwysig yn ein cymdeithas yn ystod y pandemig, gyda niferoedd anghymesur o uchel yn gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a rolau eraill yr ydym wedi dibynnu arnynt. Nododd Coleg Brenhinol y Meddygon fod un rhan o bump o'r holl staff iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU wedi'u geni y tu allan i'r DU.[114]

**164.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU estyniadau fisa ar gyfer gweithwyr gofal iechyd (nid gweithwyr gofal cymdeithasol) yr oedd eu fisâu i fod i ddod i ben erbyn mis Hydref 2020. Yn ogystal, mae staff y GIG a staff gofal cymdeithasol wedi cael eu heithrio rhag talu'r Gordal Iechyd Mewnfudo, sy'n cael ei godi i £624 y flwyddyn ym mis Hydref.

**165.** Mae ymfudwyr yn y DU yn fwy tebygol o fod yn gweithio mewn diwydiannau y mae'r argyfwng wedi effeithio arnynt, gan gynnwys gwasanaethau llety a bwyd. Maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn hunangyflogedig, mewn gwaith dros dro, ac yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, gan eu rhoi mewn perygl ariannol uwch o ganlyniad i'r argyfwng.[115]

**166.** Nid oes gan y mwyafrif o ymfudwyr gwladol o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd â chaniatâd dros dro i aros yn y DU 'unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus' (NRPF). Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu hatal rhag cael y rhan fwyaf o fudd-daliadau, credydau treth a chymorth tai. Mae'r cyfyngiadau'n gymwys i lawer o bobl, gan gynnwys gweithwyr medrus noddedig, aelodau teulu dinasyddion Prydeinig, pobl hunangyflogedig, buddsoddwyr ac entrepreneuriaid, ceiswyr lloches, ac ymfudwyr heb eu dogfennu. Llywodraeth y DU sy'n gwneud y rheolau NRPF.

**167.** Roedd ystod eang o seneddwyr a rhanddeiliaid allanol eisiau i Lywodraeth y DU atal yr amodau NRPF mewn ymateb i'r pandemig.[116] Mae Llywodraeth y DU wedi caniatáu i bobl â NRPF gael mynediad at Gynllun Cadw Swyddi y Coronafeirws (ffyrlo), a'r Cynllun Cymorth i'r Hunangyflogedig. Ond pan ddaw'r cynlluniau hyn i ben, ac os bydd pobl yn colli eu bywoliaeth, gallai llawer o ymfudwyr gael eu gorfodi i amddifadedd, yn enwedig os yw cyfyngiadau teithio yn eu hatal rhag gadael y DU

---

[114] ELGC COV27 Tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Meddygon

[115] IPPR, **Migrant workers and coronavirus: risks and responses**, 25 Mawrth 2020

[116] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Papur briffio, Coronavirus: Galw am lacio'r amodau dim hawl i gael arian cyhoeddus, 27 Ebrill 2020

**168.** Fe wnaethom ni groesawu'r gwaith cyflym gan Lywodraeth Cymru i ddarparu lloches dros dro i bobl â NRPF yn ystod y pandemig. Ond mae yna gwestiynau difrifol ynglŷn â beth fydd yn digwydd i'r bobl hyn ar ôl y pandemig o ganlyniad i'r polisi NRPF - pe bai'n bosibl gweithio o amgylch y rheolau hyn yn ystod argyfwng, a oes modd parhau â hyn mewn amseroedd 'normal'?

**169.** Canfu gwaith ymchwil diweddar gan Sefydliad Bevan fod ymfudwyr yng Nghymru yn aml yn byw bywydau ynysig, ac nad ydynt yn gwybod beth yw eu hawliau. Mae iaith yn rhwystr rhag integreiddio, ac maent yn aml yn wynebu gwahaniaethu wrth gael gwasanaethau iechyd, addysg, tai, budd-daliadau lles a chyflogaeth.[117] Mae'r sefyllfa bresennol yn debygol o helaethu'r holl faterion hyn. Mae diffyg strategaeth integreiddio gynhwysfawr yn fan dall ym mholisi Llywodraeth Cymru, fel sy'n cael ei ddangos gan y materion parhaus gyda'r cynlluniau gweithredu cydlyniant cymunedol a throseddau casineb (a amlinellir yn y bennod flaenorol).

**170.** Rydym yn cefnogi galwadau Sefydliad Bevan i Lywodraeth Cymru wella ymwybyddiaeth ymysg ymfudwyr o gynlluniau fel Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor a'r Gronfa Cymorth Dewisol i osgoi caledi ariannol.

**171.** Mae'n hanfodol bod y rhaglenni codi ymwybyddiaeth i helpu dinasyddion yr UE i wneud cais am statws sefydlog erbyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2021 yn parhau i sicrhau nad yw pobl yn colli eu hawl i aros yn y DU. Dylai staff gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen gael hyfforddiant ar hawliau ymfudwyr fel nad oes gwahaniaethu yn erbyn pobl neu eu bod yn cael eu hatal rhag cael gwasanaethau.

**Recommendation 38.** Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i godi'r cyfyngiadau 'dim hawl i gael arian cyhoeddus'.

**Recommendation 39.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r cynlluniau a'r rhwydweithiau cydlyniant cymunedol a throseddau casineb cyfredol (yn unol ag argymhelliad 33) gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth integreiddio yn yr hirdymor.

**Recommendation 40.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ar-lein.

---

[117] Sefydliad Bevan (2020) **Shared ground: integrating migrants in Wales**

**Recommendation 41.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ymfudwyr i staff gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen

**Recommendation 42.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhaglenni ymwybyddiaeth y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn cael eu rhedeg mewn ffyrdd amgen sy'n ystyried y cyfyngiadau parhaus ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

## Dylid dosbarthu'r cymorth i fusnesau a chyflogaeth mewn ffordd deg

**172.** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £1.7 biliwn i gefnogi busnesau drwy grantiau, rhyddhad ardrethi busnes a benthyciadau. Dylai'r gefnogaeth hon fod yn hygyrch i bawb, yn enwedig y rhai sydd wedi colli'r mwyaf yn ystod y cyfnod hwn.

**173.** Clywsom bryderon y bydd gweithwyr a pherchnogion busnes BAME (yn enwedig busnesau newydd) yn wynebu rhwystrau a gwahaniaethu sefydliadol o ran cael cymorth. Dywedodd EYST wrthym fod perchnogion busnes yn poeni y caiff eu ceisiadau eu gwrthod yn yr un modd ag y mae ceisiadau cyflogaeth (yn seiliedig ar enw 'tramor').[118]

**174.** Roedd ein tystiolaeth hefyd yn dangos bod rhai perchnogion busnes yn cael trafferth darganfod sut i wneud cais am gymorth, ac er bod gan Busnes Cymru gronfa i ddarparu cyfieithu ar alwadau ffôn, nid oedd hyn ar gael gyda'r nifer enfawr o alwadau yr oedd yn eu derbyn.[119]

**175.** Argymhellodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data wedi'u dadgyfuno yn rheolaidd ar effaith pandemig y coronafeirws ar wahanol rannau o gymdeithas, fel pobl â nodweddion gwarchodedig.[120] Rydym yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i hyn, sy'n tynnu sylw at y dadansoddiad a gyhoeddwyd ar nodweddion gwarchodedig a chyflogaeth yn ystod y pandemig.[121] Fodd bynnag, rydym hefyd yn glir bod yn rhaid i'r cymorth sy'n cael ei roi i fusnesau yn ystod y cyfnod hwn fod yn hygyrch i bawb, a'i ddosbarthu mewn ffordd deg. Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data wedi'u

[118] ELGC COV 17 Tystiolaeth ysgrifenedig EYST

[119] ELGC COV 17 Tystiolaeth ysgrifenedig EYST

[120] Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol

[121] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol

dadgyfuno am berchnogion busnes (a'r bobl y maent yn eu cyflogi) i sicrhau bod hyn yn digwydd

**176.** Fel y nodwyd mewn penodau blaenorol, mae rhai grwpiau o bobl yn wynebu’r perygl mwyaf o ddiweithdra oherwydd y sectorau maen nhw'n gweithio ynddynt, neu ansicrwydd eu cyflogaeth. Mae angen cymorth wedi'i dargedu ar bobl sydd â rhwystrau ychwanegol i weithio, fel rhieni sengl neu bobl anabl, i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at y farchnad swyddi. Dylid cadw a chymell yr agweddau cadarnhaol ar weithio gartref a swyddi mwy hyblyg er mwyn caniatáu i fwy o bobl gael mynediad at y farchnad lafur.

**Recommendation 43.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data wedi'u dadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchodedig ar y cymorth y mae wedi'i ddarparu i fusnesau o ganlyniad i'r pandemig.

**Recommendation 44.** Dylai Llywodraeth Cymru dargedu rhaglenni cyflogaeth at y rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur.